Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Y Gronfa Gofal Integredig

## Adroddiad Blynyddol 2018-2019

**Cefnogi**
**Cymru Iachach:**
**ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Trosolwg o'r Gronfa Gofal Integredig | 4 |
| Buddsoddiad Refeniw y Gronfa Gofal Integredig 2018-19 | 10 |
| Geirfa math o Wasanaeth | 18 |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) | 21 |
| Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | 22 |
| Gwariant yn ôl Math o Brosiect | 24 |
| Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia | 26 |
| Gwersi a ddysgwyd ac edrych ymlaen | 27 |
| Proffiliau Rhanbarthol | 28 |
| Astudiaethau Achos Refeniw a Chyfalaf | 42 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2020
WG38552 ISBN digidol 978-1-83933-914-1

## Rhagair



**Julie Morgan**
Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



**Julie James**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Rydym yn falch o gyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru ar ddarparu'r Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa) ledled Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cenedlaethol o'r gronfa yn 2018-19 ac yn disgrifio sut mae byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi defnyddio cyllid y Gronfa i helpu i ddatblygu'r broses o integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Cipolwg ydyw o'r Gronfa cyn gwerthusiad llawn ac annibynnol o'r rhaglen sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd.

Ers ei sefydlu yn 2014-15, mae'r Gronfa wedi esblygu'n rhaglen fawr fel y mae hi heddiw. O gronfa ar wahân oedd â'r nod o gadw pobl hŷn yn annibynnol ac allan o'r ysbyty neu ofal preswyl, mae bellach yn darparu cymorth integredig mawr ei angen i lawer mwy o ddinasyddion sydd ag anghenion gofal a chymorth gan gynnwys y rheini ag anabledd dysgu, awtistiaeth ac amrywiaethau niwrolegol eraill, plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr ac, yn fwy diweddar, plant mewn gofal neu sydd mewn perygl o fynd i ofal.

Ar draws holl ranbarthau Cymru, mae'r Gronfa yn ariannu prosiectau a gwasanaethau sy'n darparu gofal iechyd a chymdeithasol di-dor i bobl, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a helpu pobl i fyw eu bywydau yn eu ffordd eu hunain. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y gronfa'n gwneud cyfraniad sylweddol i'n helpu ni i gyflawni ein hymrwymiadau yn Cymru Iachach, sy'n ddull allweddol o gyflawni deddfwriaeth drawsnewidiol Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym yn falch o'r newidiadau ac wedi ein calonogi gan y newidiadau hynny i'r system sy'n cael eu gwneud trwy fuddsoddiad y Gronfa a'r ffordd y mae wedi cefnogi ymarfer arloesol, arobryn i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio integredig.

Mae'r adroddiad hwn yn arddangos rhai o'r prosiectau a'r gwasanaethau rhagorol sydd wedi'u datblygu a'u cefnogi gan y Gronfa.

Defnyddiwyd y Gronfa i gefnogi amrywiaeth eang o ffyrdd newydd ac arloesol o weithio sydd â'r potensial i ddylanwadu ar batrymau gofal a chymorth yn y dyfodol ac mewn rhai achosion llety, er gwell. Erbyn hyn mae yna dimau amlddisgyblaeth niferus o weithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol, tai a thrydydd sector sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymyriadau wedi'u teilwra i helpu unigolion i gyflawni eu nodau llesiant a gwella ansawdd eu bywyd.

Mae nifer o'r modelau cyflawni newydd a ddatblygwyd ac a brofwyd drwy'r Gronfa wedi bod mor llwyddiannus fel eu bod wedi ffurfio sylfaen rhaglenni trawsnewid ar raddfa fwy a ariennir drwy'r Gronfa Trawsnewid newydd.

Does dim dwywaith bod y Gronfa wedi sbarduno newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu datblygu a'u darparu. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2019 yn cydnabod cyfraniad pwysig y Gronfa at gefnogi'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a datblygu byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Drwy wneud gwell defnydd o adnoddau drwy gydweithio a thrwy symud oddi wrth ffyrdd traddodiadol o weithio, mae'r Gronfa'n cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal i ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac i gael eu darparu yn y cartref neu'n agosach ato. O ganlyniad, mae hyn yn helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau GIG a gofal cymdeithasol hanfodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'r Gronfa ddangos y defnydd gorau o arian cyhoeddus hefyd a bod angen darparu tystiolaeth glir o'i heffaith. I gefnogi hyn, byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Gronfa fel y gallwn gymryd yr hyn a ddysgir o brosiectau unigol a disgrifio manteision ac effeithiau'r Gronfa ar lefel rhaglen genedlaethol.

Gan edrych i'r dyfodol, ein hymrwymiad ar hyn o bryd yw ariannu'r Gronfa tan 2021. Bydd unrhyw raglen ariannu yn y dyfodol yn cael ei llywio gan ein gwerthusiad arfaethedig o'r gronfa a'r gwersi a ddysgir o'r rhaglen gyfredol. Yn olaf, hoffem gydnabod gwaith rhagorol yr holl fyrddau partneriaeth rhanbarthol wrth ddarparu'r Gronfa ac wrth lunio'r adroddiad hwn. Hoffem hefyd gydnabod rôl hollbwysig timau staff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni gwaith y Byrddau'n effeithiol ac o ran helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r uchelgeisiau sydd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, 'Cymru Iachach'.

Drwy weithio gyda'n gilydd, mewn partneriaeth, rydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

# Trosolwg o'r Gronfa Gofal Integredig

Mae'r Gronfa, a sefydlwyd yn 2014, yn rhaglen ataliol sydd hefyd yn ceisio integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwella bywydau'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae'r rhaglen yn rhoi lle canolog i bobl yn eu gofal a'u cymorth drwy ddarparu gwasanaethau sy'n eu helpu i gyflawni 'beth sy'n bwysig iddyn nhw' ac yn eu galluogi i fyw eu bywydau yn eu ffordd eu hunain. I lawer o bobl, mae hynny'n golygu gallu cael gwasanaethau a chymorth yn y cartref neu'n agos at gartref yn hytrach nag mewn ysbytai. Mae hefyd yn golygu gallu cael gafael ar gymorth cyfannol a fydd yn ystyried eu hiechyd a'u gofal, ac mewn rhai achosion eu hanghenion tai fel pecyn integredig a di-dor. Mae llawer o brosiectau'r Gronfa wedi galluogi hyn ar gyfer y dinasyddion y maent yn eu cefnogi ac wedi rhoi profiad llawer mwy boddhaol iddynt o ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu heisiau a'u hangen arnynt.

Nid yn unig mae'r dull hwn yn well i ddinasyddion, mae wedi helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol cyfyngedig hefyd, gan sicrhau bod y gwasanaethau mwy acíwt ac arbenigol ar gael i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ar y Gronfa i'w gynhyrchu a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu trosolwg ar lefel genedlaethol o'r buddsoddiad a wnaed gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn 2018-19 ac yn rhoi cipolwg ar rai o'r prosiectau a'r gwasanaethau a ariannwyd yn ystod y flwyddyn a'r effeithiau cadarnhaol a gawsant ar fywydau pobl.

Er nad yw hwn yn adroddiad gwerthusol, bydd yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i gefnogi'r gwerthusiad o'r Gronfa sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2019-20.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn wedi'i chymryd o gynlluniau buddsoddi rhanbarthol y Gronfa ac adroddiadau chwarter pedwar a gyflwynwyd gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi cyfrannu'n llawn at y broses o ddatblygu'r adroddiad hwn ac wedi dilysu'r data a geir ynddo.

## Ychydig mwy am y Gronfa

Mae'r Gronfa'n fecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn fwy diweddar, cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: Cymru Iachach. Felly, mae amcanion y Gronfa'n cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth byrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer integreiddio, sef:

- pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- pobl ag anableddau dysgu
- plant ag anghenion cymhleth
- gofalwyr.

Mae'r gronfa'n cefnogi pobl â dementia hefyd ac yn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Gweithredu Dementia Llywodraeth Cymru 2018-22.

Mae'r Gronfa'n darparu buddsoddiad refeniw a chyfalaf i sbarduno a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol er mwyn helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau iechyd a lles a ddymunant.

Yn 2018-19, cyfanswm buddsoddiad y Gronfa oedd:

- Refeniw – £59 miliwn
- Cyfalaf – £30 miliwn
- Cyfanswm – £89 miliwn

Dyrennir y Gronfa i bob un o'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru er mwyn sicrhau dull cydweithredol.

Mae pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol wedi ymgysylltu â dinasyddion ac wedi cwblhau asesiad poblogaeth manwl a datblygu cynllun ardal sy'n egluro eu blaenoriaethau ar gyfer datblygu a buddsoddi. Mae'r naill ddogfen allweddol a'r llall wedi cael eu defnyddio i lywio Cynlluniau Buddsoddi rhanbarthol y Gronfa hefyd.

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau cenedlaethol ar ffocws a rheolaeth y

Gronfa cyn i gynlluniau buddsoddi gael eu datblygu a'u cyflwyno.

Mae rhaglen y Gronfa a'i holl brosiectau wedi'u seilio ar egwyddorion allweddol:

- atal
- cydweithio
- integreiddio
- ymgysylltu â dinasyddion.

Felly, mae rhaglen y Gronfa'n gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn cyd-fynd â llawer o'r egwyddorion dylunio cenedlaethol sydd yn 'Cymru Iachach'.

## Beth mae'r Gronfa wedi'i gyflawni yng Nghymru

Sefydlwyd y Gronfa fel 'cronfa ysgogi' neu 'gronfa brawf' yn cynnig gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac yn fwy diweddar, gwasanaethau tai gyda'r cyfle i brofi modelau newydd o gymorth integredig a di-dor i ddinasyddion.

Mae datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor sydd wedi'u cynllunio a'u darparu ar sail anghenion a dewisiadau unigolion wrth wraidd cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sef 'Cymru Iachach'.

Mae'r cynllun yn egluro gweledigaeth hirdymor ar gyfer dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles, atal salwch a thrwy wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n cael eu darparu yn y cartref neu'n agosach ato. Mae'r Gronfa'n helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Yn 2018-19, cefnogwyd amrywiaeth eang o brosiectau ataliol gan bob un o'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau sydd â'r nod o ddarparu gofal yn y cartref neu'n agos ato
- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i hybu hunangymorth a diwallu anghenion pobl cyn iddynt symud ymlaen i wasanaethau statudol
- integreiddio a chydgysylltu gwasanaethau iechyd a gofal i gefnogi plant ac oedolion sydd ag anghenion cymhleth i gael y cymorth cywir yn y lle iawn ar yr adeg iawn
- cefnogi gofalwyr i gynnal eu rôl gofalu a hyrwyddo eu lles eu hunain hefyd
- gwelliannau teleofal a chyfarpar arbenigol arall
- llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anghenion cymorth penodol fel y rhai ag anableddau dysgu, ac mae'r rhain yn cael eu darparu weithiau ochr yn ochr neu fel rhan o ddarpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach newydd fel meddygfeydd meddygon teulu
- llety cam-i-fyny a cham-i-lawr ar gyfer pontio i mewn neu allan o ysbyty neu ofal
- addasu tai er mwyn helpu i atal cwympiadau a galluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol a byw yn eu cartrefi eu hunain
- cyfleusterau a seilwaith newydd ar gyfer timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i weithredu a darparu gwasanaethau i bobl o gynlluniau rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty, yn enwedig ar gyfer cleifion strôc
- timau ymateb cyflym yn y gymuned i ddarparu triniaeth neu ofal brys amserol i bobl yn eu cartrefi fel dewis arall yn lle cael eu derbyn i'r ysbyty
- datblygu Cymunedau sy'n Deall Dementia;
- grantiau i sefydliadau trydydd sector i helpu i leihau unigedd cymdeithasol i bobl hŷn a gwella darpariaeth a mynediad i wasanaethau cymunedol.

Yn ogystal â helpu i ddarparu gwasanaethau mwy di-dor i ddinasyddion mae'r Gronfa wedi galluogi newid yn y system yn ehangach hefyd gan gynnwys:

**Gweithio integredig –** mae sefydlu timau amlddisgyblaethol mewn llawer o ysbytai a chymunedau ledled Cymru wedi helpu i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau, gan gefnogi'r egwyddor o ddarparu'r dull cywir, y tro cyntaf a lleihau'r cymhlethdod wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth.

## Enghraifft dda

Mae Tîm Adnoddau Cymunedol Wrecsam a phrosiect Navigators wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Maelor Wrecsam. Mae'n wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig, amlddisgyblaethol (sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol) sy'n darparu gofal a chymorth adsefydlu dwys tymor byr i bobl hŷn. Mae'n galluogi pobl i oresgyn yr angen i fynd i'r ysbyty, neu i gael eu derbyn i ofal hirdymor, neu i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn gynt ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty i gael gofal acíwt. Darperir gofal a chymorth yng nghartref yr unigolyn ei hun, neu mewn gwely cam-i-fyny/i-lawr. **Ar ddiwedd 2018/2019, roedd y prosiect wedi cefnogi 934 o bobl i aros gartref ac oherwydd hyn arbedwyd amcangyfrif o 10,115 o ddyddiau gwely.**

## Enghraifft dda

Mae Caerdydd a'r Fro wedi treialu Gwasanaeth Anabledd Integredig ar gyfer Plant sy'n profi'r cysyniad o weithio integredig rhwng asiantaethau er mwyn lleihau dyblygu, symleiddio gwasanaethau, lleihau cymhlethdod i rieni ac o bosibl nodi cyfleoedd osgoi costau posibl o fewn y gwasanaethau presennol. Mae 94 (plant a'u teuluoedd) yn cymryd rhan yn y cynllun peilot hwn.

Helpodd y gwasanaeth Joshua a oedd wedi bod mewn gofal ers yn fabi ond a gafodd ei fabwysiadu yn 16 mis. Roedd yn dangos arwyddion o broblemau ymddygiad pan oedd yn ddwy a hanner ac roedd yn cael trafferth cyflawni tasgau bob dydd. Cafodd ddiagnosis o anhwylder synhwyraidd o'r enw oedi datblygiadol cyffredinol. Trefnwyd cyfarfodydd integredig, ynghyd â gwasanaethau seibiant i gefnogi Joshua a'i deulu. Mae cynnwys Joshua yn y cynllun peilot Anghenion Cymhleth yn golygu bod pob gweithiwr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i helpu i gefnogi Joshua. **Mae 90 o blant a'u teuluoedd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot hwn ac mae 40 o adolygiadau o lety byw â chymorth wedi'u cynnal ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth er mwyn sicrhau cymaint o gysondeb â blaenoriaethau i ganiatáu i oedolion fyw'n nes at eu cartrefi**. *"O'r diwedd rydyn ni'n cael cyfarfodydd amlddisgyblaeth lle mae pawb yn eistedd o amgylch y bwrdd a phawb yn gwybod beth sy'n digwydd. Rwy'n gallu cefnogi hynny yn y cartref hefyd."*

**Lleihau pwysau ar y system** – Mae cyllid y Gronfa wedi cael ei ddefnyddio ledled Cymru i leddfu'r pwysau ar y system gofal acíwt drwy fentrau fel prynu gwelyau cam-i-fyny/cam-i-lawr a gweithgarwch arall i wella oedi gyda throsglwyddiadau gofal a lleihau derbyniadau i'r ysbyty. Mae'r Gronfa wedi helpu gwasanaethau i symud oddi wrth rai o'r ffurfiau mwy traddodiadol o ofal cleifion, gan gynnwys gofal ysbyty, ac yn lle hynny mae wedi cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn gyda gofal yn cael ei ddarparu yn y cartref neu'n agosach i'r cartref.

## Enghraifft dda

Mae Model Gofal Gorau Bae'r Gorllewin yn gweithredu ar draws y rhanbarth, gan gynnig cyfres o wasanaethau gofal canolraddol i helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gynnar i gartref neu gymuned yr unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys system frysbennu amlddisgyblaethol, mentrau ail-alluogi a gwelyau gofal canolraddol cam-i-fyny cam-i-lawr. **O ganlyniad uniongyrchol i'r gwasanaeth hwn rhyddhawyd 1778 o gleifion, gyda thros 39,000 o ddiwrnodau gwely wedi'u harbed, sy'n cyfateb i dros £5 miliwn mewn arbedion ariannol.**

'*Hoffwn fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad i'r ddau aelod o staff am eu hymateb cyflym i'm cais am gymorth ac am y ffordd broffesiynol yr ymdriniodd y ddau ohonynt â'r sefyllfa*'.

## Enghraifft dda

Mae Gwasanaethau Ymateb i Gwympiadau Gwent yn brosiect cydweithredol a ariennir gan y Gronfa rhwng Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n defnyddio dull amlddisgyblaeth o ymateb i alwadau 999 oherwydd cwymp. Darperir y gwasanaeth gan dîm o barafeddygon a ffisiotherapyddion. Mae'r gwasanaeth ymateb amserol integredig i gleifion sydd wedi cwympo yn golygu y gallant dderbyn asesiad meddygol, gweithrediad a chymdeithasol llawn pan fyddant ei angen i'w cyfeirio i'r llwybr gofal mwyaf priodol heb orfod mynd i'r ysbyty.

Erbyn mis Mawrth 2019 cefnogodd y prosiect 2575 o bobl gyda 79% o gleifion a gwympodd yn derbyn gofal yn y cartref neu yn y fan a'r lle gan osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty drwy'r adran achosion brys, a all osgoi costau o tua £77,000 y mis.

**Gwelodd y prosiect ostyngiad o 72% (llinell sylfaen 2014) i 21% mewn cludo i'r ysbyty yn dilyn cwympo.**


## Enghraifft dda

Mae Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yn gweithredu ar draws Cwm Taf ac mae'n enghraifft ragorol o gydweithio a gweithio integredig. Mae'r gwasanaeth sy'n weithredol 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn yr ysbyty, wedi'i leoli yn ysbyty acíwt y Tywysog Siarl ac ysbyty acíwt Brenhinol Morgannwg.

Mae'r tîm yn cynnal asesiadau cychwynnol a chomisiynau, ac yn seiliedig ar y sgwrs "beth sy'n bwysig i mi" mae'n comisiynu'r gymuned iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector berthnasol i roi cefnogaeth, rhyddhau cleifion yn amserol, ac osgoi'r angen iddynt gael eu derbyn i ysbyty.

Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref wedi bod yn llwyddiannus o ran cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl, gan sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Mae'n gyfuniad o asesu amserol yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys a mynediad at wasanaethau cymunedol ymatebol. Mae'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau y gall pobl gyflawni eu canlyniadau lles personol eu hunain ac mae wedi lleihau hyd arhosiad cyfartalog pobl mewn ysbytai ar draws Cwm Taf yn sylweddol. **O ganlyniad i'r prosiect hwn yn 2018-19, ni fu'n rhaid i gyfanswm o 183 o bobl 61-74 oed a chyfanswm o 151 o bobl dros 75 oed â ymwelodd ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys aros dros nos yn yr ysbyty.**

Mae llwyddiant Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref wedi arwain at gydnabyddiaeth i'r gwasanaeth yng ngwobrau gofal cymdeithasol 2018 ac ennill categori gwaith partneriaeth yng Ngwobrau Iechyd Cenedlaethol gofal iechyd darbodus 2018. Yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid trawsnewid Llywodraeth Cymru, mae'r cynllun yn cael ei ymestyn ar draws y rhanbarth bellach.



**Atal lles gwael –** mae llawer o wasanaethau a phrosiectau a ariennir gan y Gronfa yn cyfrannu at leihau unigrwydd ac ynysigrwydd mewn unigolion. Drwy helpu dinasyddion i gysylltu â phobl a gwasanaethau eraill yn eu cymunedau eu hunain, maent mewn sefyllfa well i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt a chefnogi eu lles eu hunain, gan atal pob math o afiechydon sy'n gysylltiedig ag unigrwydd ac ynysigrwydd. Felly, mae presgripsiynu cymdeithasol yn elfen bwysig o'r Gronfa. Mae gan bob rhanbarth ledled Cymru gysylltwyr cymunedol neu lyw-wyr cymunedol i helpu i gysylltu pobl â gwasanaethau a gweithgareddau o fewn eu cymunedau lleol eu hunain.

## Enghraifft dda

Ym Mhowys, mae tîm o 10 o Gysylltwyr Cymunedol yn helpu pobl dros 18 oed a'u teuluoedd neu ofalwyr i gael gafael ar wasanaethau cymunedol. Y nod yw cefnogi pobl i fyw'n annibynnol ac atal dirywiad yn eu hamgylchiadau a allai arwain at fod angen lefel uwch o ofal iechyd a gofal cymdeithasol. Gan weithio gyda sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol, mae Cysylltwyr Cymunedol yn cynnig cymorth o bob math yn cynnwys cyfeillio, siopa, eiriolaeth, addasu cartrefi, trafnidiaeth gymunedol a chymorth i bobl â dementia.Yn 2018-19 cefnogodd y gwasanaeth 1519 o unigolion ar draws Powys gyda 84% yn cynnal eu hannibyniaeth a'u sgiliau byw bob dydd.

## Enghraifft dda

Yn debyg i'r cysylltwyr cymunedol ym Mhowys, mae gan Wrecsam dîm o 'Asiantwyr Cymunedol.' Mae'r asiantwyr hyn, a gyflogir gan Gynghorau Cymuned yn darparu gwasanaeth lleol gwerthfawr i bobl dros 50 oed. Mae'r asiantwyr yn helpu i gysylltu pobl hŷn yn eu hardal â gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth y maent eu hangen i'w helpu i deimlo'n gysylltiedig a byw'n annibynnol yn eu cymuned eu hunain. Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 686 o bobl yn 2018-19 gyda 76% o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n llai unig. Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi cynnydd mewn gwirfoddoli yn y gymuned hefyd yn ogystal â gweld datblygiad grwpiau cymunedol a gweithgareddau newydd megis 'Siediau Dynion' a grwpiau cerdded.

**Newid ehangach i'r system –** mewn llawer o achosion mae'r Gronfa wedi cael ei defnyddio ar y cyd â ffrydiau ariannu eraill fel y Gronfa Gofal Sylfaenol, y Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg a Theuluoedd yn Gyntaf i sicrhau bod gwariant gyda rhanbarthau yn cael ei gydgysylltu i ddod â chymaint â phisibl o fanteision i ddinasyddion. Mae'r defnydd o gronfeydd cyfun gan rai byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi bod yn rhan annatod o hyn. Mae yna brosiectau'n cael eu datblygu hefyd lle mae cyfalaf y Gronfa yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â rhaglenni cyfalaf tai ac iechyd, megis tai gofal ychwanegol gyda llety tymor byr cam-i-fyny a cham-i-lawr gyda meddyg teulu a gwasanaethau cymdeithasol cymunedol. Gellir defnyddio dysgu gan brosiectau'r Gronfa a'r ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a seilwaith i lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaeth ehangach, ac mae hynny'n digwydd.

## Enghraifft dda

Mae Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro (PIVOT) yn rhyddhau cleifion yn amserol ac effeithiol o'r ysbyty ac yn darparu cyfleoedd i fyw'n annibynnol yn y gymuned a lleihau unigedd cymdeithasol, er enghraifft, darparu cludiant y tu allan i oriau, darparu nwyddau sylfaenol, cysylltu â theuluoedd a dilyn hyn gyda chyfeillio a gwasanaethau eraill. Yn 2018-19, cynorthwyodd PIVOT weddw 70 oed sy'n byw ar ei phen ei hun mewn cymuned fach anghysbell yn Sir Benfro a oedd wedi cael ei hatgyfeirio gan ei meddyg, yn y gobaith y gallai PIVOT ddarparu cymorth mawr ei angen ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty. Rhoddwyd amryw o adnoddau ategol ar waith i'w helpu i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn y cartref, gan gynnwys system bocs allwedd, ymweliadau wythnosol i helpu gyda siopa a thasgau o amgylch y cartref a gwasanaethau cludiant lleol am ddim a oedd yn caniatáu iddi ymweld â ffrindiau a mynychu gweithgareddau/grwpiau. **Yn 2018-19, cafwyd 761 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth gyda chyfanswm o 4,716 o ddyddiau gwely yn cael eu harbed**.

"Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy niolch a'm gwerthfawrogiad am yr holl gymorth rydych chi wedi'i roi i mi. Rwy'n mynd i'r Uned Adsefydlu yn Llwynhelyg ac mae gen i gymhorthion gartref hefyd gan y therapydd galwedigaethol. Hefyd, mae fy ymweliadau gan (wirfoddolwr PIVOT) wedi bod yn fendigedig – gan ddod â llawer o bleser i'r diwrnod."

## Enghraifft dda

Mae Caffi Man Cwrdd yn Aberdaugleddau yn brosiect sy'n dod â buddsoddiad refeniw a chyfalaf y Gronfa ynghyd. Mae'r prosiect wedi creu detholiad o gyfleoedd i ddarparu cyflogaeth â chymorth i bobl ag anableddau dysgu. Mae'n eu helpu i dyfu a dod yn fwy annibynnol gan ganolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd gwaith. Mae hefyd yn helpu pobl ag anableddau dysgu i ehangu eu bywyd cymdeithasol fel y gallant dreulio amser gyda'r bobl a ddymunant. Mae'r prosiect wedi datblygu gwefan anableddau dysgu, menter gymdeithasol – 'Caffi Man Cwrdd', cyfleoedd profiad gwaith a hyrwyddwyr anableddau dysgu i ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn cefnogi 9 o bobl sydd ag anableddau dysgu i gymryd rhan mewn gwaith cyflogedig.

Dechreuodd Sian weithio gyda'r tîm 18 mis yn ôl ac mae'n aelod allweddol o dîm y wefan anableddau dysgu. Mae hi'n cefnogi Workways + mewn digwyddiadau hefyd, a hi gynlluniodd logo a bwydlen Caffi Man Cwrdd. Mae hi bellach yn gweithio gyda'r tîm gweinyddu busnes am 9 awr yr wythnos.

*"Nid yw'r ffaith ein bod ni ychydig yn wahanol yn golygu nad oes gennym sgiliau."*

**Hyrwyddo partneriaeth –** yn eu hadroddiad yn 2019, cydnabu Swyddfa Archwilio Cymru rôl allweddol y Gronfa o ran cefnogi datblygiad byrddau partneriaeth rhanbarthol ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy ddarparu adnoddau penodol i brofi modelau cyflenwi arloesol, mae cysylltiadau partneriaeth newydd wedi'u datblygu'n strategol ac yn weithredol i integreiddio gwasanaethau ymhellach.

## Enghraifft dda

Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol (ILS), sy'n cael ei redeg gan Gyngor Caerdydd, yn darparu gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl sydd angen cymorth gyda thai, cymorth ariannol, cyfarpar, mynediad i ofal oedolion a gwasanaethau'r trydydd sector. Yn aml bydd swyddogion byw'n annibynnol yn cwrdd â dinasyddion yn eu cartrefi eu hunain ac yn cynnal asesiad i nodi meysydd lle y gallai'r unigolion hyn gael eu cynorthwyo i'w galluogi i fyw'n fwy annibynnol a pharhau i fod yn rhan o gymuned. **Gyda chyfanswm o 37,489 o alwadau a 4,153 o ymweliadau cartref yn 2018-19, roedd 98% o'r bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth hwn yn teimlo bod y gwasanaeth wedi gwella ansawdd eu bywyd.**

Yn 2018-19, roedd yr ILS yn cefnogi un dyn 90 oed a oedd yn cael trafferth gofalu amdano'i hun ar ôl i'w iechyd ddirywio yn sgil bod yn brif ofalwr i'w wraig a oedd yn dioddef o iechyd gwael. Wrth fethu â gofalu amdano'i hun yn iawn a gwneud tasgau yn y cartref aeth yn isel iawn yn enwedig gan nad oedd yn gallu gofalu am ei ardd bellach, oedd yn destun cryn falchder iddo. Cyflwynodd yr ILS amrywiaeth o wasanaethau cymorth i helpu'r gŵr hwn adennill ei iechyd yn ogystal â gwasanaethau garddio a chymorth i wneud gwahanol dasgau. Roedd cydweithrediad sefydliadau'n rhoi mecanwaith cefnogi i'r cwpl oedrannus bregus ac yn caniatáu iddynt aros gartref, gan roi sicrwydd iddynt fod gwasanaethau ar gael i ddiwallu eu hanghenion.



## Enghraifft dda

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys wedi defnyddio ychydig o gyllid y Gronfa i dreialu 'Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion.' Mae'r rhaglen yn cael ei chynnal mewn 10 ysgol (cynradd ac uwchradd) ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth staff a disgyblion o ofalwyr ifanc a'u cyfrifoldebau. Mae'r prosiect wedi darparu cyswllt a chefnogaeth i ofalwyr ifanc ac mae'n datblygu pecyn cymorth o adnoddau i staff ei ddefnyddio wrth helpu i gefnogi disgyblion sy'n ofalwyr ifanc. Mae gofalwyr ifanc wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a darparu'r rhaglen ac mae rhai wedi cael cyfle i ymweld â'r Senedd a chwrdd ag Aelodau Cynulliad hyd yn oed.

Mae'r rhaglen yn cynnwys sefydlu hyrwyddwyr gofalwyr, cynnal sesiynau ymwybyddiaeth gofalwyr ifanc, cynorthwyo gofalwyr ifanc i 'gael llais' a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a helpu gofalwyr ifanc i gael gafael ar y cymorth sdd ei angen arnynt.

*"Rwy'n teimlo fel eich bod yn deall gofalwyr ifanc ac mae ein sgyrsiau'n cynnig lle i mi siarad nad yw'n ymwneud ag agenda'r ysgol neu fy nheulu."* – gofalwr ifanc.

*"Yn fy holl flynyddoedd yn mynychu Fforwm Ieuenctid, nid wyf erioed wedi deall yn iawn beth fyddai bod yn ofalwyr ifanc yn ei olygu. Rwy'n credu fy mod yn deall o'r diwedd."* – myfyriwr nad yw'n ofalwr ifanc.

*"Roedd y disgyblion chweched dosbarth yn ystyried faint yr oedden nhw wedi'i gael o'r gweithdai hefyd ac roeddynt yn cynnig eu cefnogaeth yn y dyfodol gan eu bod yn cydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth. Aethant ati wedyn i gynnal stondin gacennau yn ystod amser cinio gyda byrddau codi ymwybyddiaeth".* – athro ysgol.


# Buddsoddiad refeniw y Gronfa Gofal Integredig 2018-19

## Dyraniadau 2018-19

Mae Ffigur 1 isod yn dangos dyraniadau cenedlaethol y Gronfa fesul grŵp poblogaeth â blaenoriaeth, fel y disgrifir yng nghanllawiau'r Gronfa 2018-19. Mae'n bwysig nodi, er bod cyllid ar gyfer pobl fregus a phobl hŷn wedi cael ei glustnodi'n hanesyddol, nad yw cyllid ar gyfer gofalwyr, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth wedi'i wahanu na'i nodi. O beidio bod wedi'i glustnodi, roedd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i fyrddau partneriaeth rhanbarthol allu cynllunio eu rhaglenni Cronfa eu hunain a fyddai'n ymateb i asesiad o anghenion eu poblogaeth a'u cynllun ardal.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig hefyd yn cefnogi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a rhoi System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith (WCCIS). Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiectau a'r gwasanaethau hyn ar dudalennau 21-23.

### Ffigur 1 – dyraniadau 2018-19 y Gronfa Gofal Integredig yn ôl grŵp blaenoriaeth




Er gwybodaeth, mae Tabl 1 (ar dudalen 11) yn dangos y dadansoddiad rhanbarthol o ddyraniad y Gronfa yn 2018-19 yn ôl grŵp poblogaeth. Nodwch fod ffigur y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn cynrychioli gweithredu am ran o flwyddyn, bydd y dyraniad ar gyfer 2019-20 yn £9 miliwn.

Tabl 1 – Cyllid a ddyrannwyd: Maes Blaenoriaeth yn ôl Rhanbarth

| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Pobl Fregus a Phobl Hŷn | Gofalwyr, Anableddau Dysgu, Plant ag Anghenion Cymhleth | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) | Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia |
|---|---|---|---|---|---|
| Bae'r Gorllewin | £5,190,000 | £2,578,976 | £257,896 | £398,000 | £1,544,029 |
| Gwent | £5,400,000 | £2,922,087 | £292,212 | £458,000 | £704,556 |
| Gogledd Cymru | £7,170,000 | £3,429,906 | £342,994 | £652,000 | £1,825,857 |
| Caerdydd a'r Fro | £3,690,000 | £2,014,296 | £201,418 | £367,000 | £479,978 |
| Cwm Taf | £2,910,000 | £1,580,056 | £158,007 | £367,000 | £443,000 |
| Gorllewin Cymru | £4,140,000 | £1,844,708 | £184,474 | £398,000 | £1,012,417 |
| Powys | £1,500,000 | £629,970 | £62,998 | £337,000 | £326,980 |
| Arall (* NWIS a CLILC) | £0 | £0 | £500,000 | £23,000 | £0 |
| **Cyfanswm** | **£30,000,000** | **£15,000,000** | **£2,000,000** | **£3,000,000** | **£6,336,817** |

## Troed Rhanbarthol



## Gwariant Gwirioneddol 2018-19

Mae Ffigur 2 isod yn rhoi trosolwg cenedlaethol i ddangos sut y mae byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi buddsoddi dyraniadau'r Gronfa yn y grwpiau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt. Yn y siart hwn, rydym wedi gwahanu gwariant ar ofalwyr, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth.


Mae'n bwysig nodi bod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 'brif fuddiolwyr' prosiectau. Rydym yn cydnabod bod llawer o brosiectau'n cefnogi nifer o'r grwpiau poblogaeth blaenoriaeth gwahanol yr un pryd, er enghraifft mae rhai prosiectau'n cefnogi pobl hŷn a'u gofalwyr.

Rydym wedi cynnwys ffigur ar wahân ar gyfer cyllid hefyd sydd wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o ddatblygu seilwaith rhanbarthol. Defnyddiwyd y cyllid hwn i gefnogi datblygiad timau cymorth y byrddau partneriaeth rhanbarthol, rheoli rhaglenni a phrosiectau ar gyfer rhaglenni'r Gronfa a gweithgarwch comisiynu rhanbarthol.

Mae'r ffigurau buddsoddi gwirioneddol yn adlewyrchu'r lefel uwch o fuddsoddiad mewn gwasanaethau ar gyfer pobl fregus a phobl hŷn nag a ddyrannwyd yn wreiddiol hefyd. Defnyddiwyd £2.5 miliwn o gyllid ychwanegol o'r Gronfa yn ychwanegol at y £30 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y grŵp blaenoriaeth penodol hwn.

Er nad oedd blaenoriaeth benodol ar gyfer iechyd meddwl yng nghanllawiau 2018-19 (o ganlyniad i'r rhaglenni cyllid iechyd meddwl penodol eraill a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru), dewisodd rhai rhanbarthau fuddsoddi rhywfaint o adnoddau'r Gronfa mewn prosiectau iechyd meddwl. Unwaith eto, gan gydnabod y gallai prosiectau eraill y Gronfa sydd wedi'u bwriadu ar gyfer rhai o'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth gynnwys cymorth iechyd meddwl hefyd, roedd y prosiectau a restrir ar wahân yma'n brosiectau iechyd meddwl pwrpasol.

### Ffigur 2 – Gwariant Gwirioneddol 2018-19 yn ôl grŵp blaenoriaeth




Mae Tabl 2 (ar dudalen 13) yn dangos nifer y prosiectau ym mhob rhanbarth, yn ôl grŵp blaenoriaeth. Unwaith eto, rydym wedi gwahanu gofalwyr, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth i ddangos gweithgarwch gwirioneddol.

### Tabl 2 – Nifer y prosiectau: Maes Blaenoriaeth yn ôl rhanbarth

| | Cymru gyfan | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Gwent | Gogledd Cymru | Powys | Gorllewin Cymru | Bae'r Gorllewin | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwyr | 0 | 1 | 0 | 16 | 3 | 3 | 2 | 8 | 33 |
| Plant ag anghenion cymhleth | 0 | 5 | 0 | 6 | 12 | 10 | 4 | 7 | 44 |
| Dementia | 0 | 6 | 9 | 13 | 31 | 4 | 10 | 34 | 107 |
| Pobl Fregus a Phobl Hŷn | 0 | 6 | 7 | 52 | 38 | 16 | 25 | 10 | 154 |
| Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 8 |
| Anableddau dysgu | 0 | 3 | 2 | 13 | 12 | 2 | 2 | 2 | 36 |
| Iechyd Meddwl | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 5 |
| Seilwaith Rhanbarthol | 0 | 3 | 0 | 2 | 6 | 9 | 2 | 5 | 27 |
| WCCIS | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 8 |
| Cyfanswm | 2 | 26 | 20 | 106 | 106 | 47 | 47 | 68 | 422 |

Yn 2018-19 mae'r Gronfa wedi ariannu cyfanswm o 422 o brosiectau ledled Cymru. Mae prosiectau'n amrywio'n sylweddol ac mae Ffigur 5 yn dangos maint a graddfa amrywiol y prosiectau. Yn 2018-19 roedd dulliau rhanbarthol o ddatblygu prosiectau a rhaglenni'r Gronfa'n amrywio. Roedd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i ddatblygu llawer o brosiectau llai, lleol neu unigol wedi'u lleoli mewn awdurdod lleol, gydag eraill yn cymryd cam amlwg tuag at ddatblygu prosiectau rhanbarthol mwy a mwy strategol.
Yn 2019-20, wrth i fyrddau partneriaeth rhanbarthol barhau i ddatblygu ac aeddfedu, disgwyliwn weld mwy o symud tuag at brosiectau rhanbarthol, strategol ac oddi wrth brosiectau awdurdodau lleol ar wahân.

## Buddsoddi rhanbarthol a heb fod yn rhanbarthol

Tyfodd y Gronfa o'r Gronfa Gofal Canolraddol flaenorol, a sefydlwyd yn 2014 ac a oedd yn perthyn i gyfnod cyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol.

I'r perwyl hwnnw, mae'r gwaith o gyflawni rhaglen y Gronfa wedi digwydd o fewn tirwedd sy'n datblygu ac yn trawsnewid ac sy'n ceisio integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a gweithio ar draws ffiniau sefydliadol ac awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.


At ddibenion yr adroddiad hwn, mae prosiectau rhanbarthol yn cael eu nodi fel prosiectau sy'n cwmpasu'r ôl-troed rhanbarthol cyfan h.y. pob awdurdod lleol ac yn cynnwys y bwrdd iechyd lleol fel partner cyflawni.

Diffinnir prosiectau heb fod yn rhanbarthol fel prosiectau sy'n gweithredu mewn un ardal awdurdod lleol yn unig neu rai ohonynt, a gallant, neu gallant beidio, cynnwys y Bwrdd Iechyd fel partner cyflawni ar y cyd.


Rydym wedi cynnwys y syniad o brosiectau isranbarthol hefyd, sydd wedi cael eu datblygu yn y rhanbarthau llawer mwy fel Gogledd Cymru. Mewn rhanbarth fel Gogledd Cymru, lle ceir chwe awdurdod lleol a bwrdd iechyd mawr, gall dulliau isranbarthol fod yn garreg sarn ddefnyddiol i brofi modelau cyflawni cyn eu huwchraddio i ddull rhanbarthol llawn.

Dengys Ffigur 3, bod 60% o'r Gronfa gyffredinol yn 2018-19 wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau lefel a chyflenwi gwasanaethau ar lefel ranbarthol gyda 26% yn dal i gael ei fuddsoddi mewn prosiectau lleol neu brosiectau awdurdodau lleol unigol. Dim ond 3% a fuddsoddwyd mewn darpariaeth isranbarthol. Yn 2019-20 rydym yn disgwyl gweld cynnydd amlwg mewn buddsoddiad a darpariaeth ranbarthol.

Ffigur 3 – Buddsoddiad 2018-19 y Gronfa mewn gweithgarwch rhanbarthol a heb fod yn rhanbarthol (* ac eithrio gwariant y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia)




Ffigur 4 – Buddsoddiad rhanbarthol a heb fod yn rhanbarthol yn ôl rhanbarth (* ac eithrio gwariant y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia)





Oherwydd y dirwedd sy'n datblygu, mae lefelau buddsoddi rhanbarthol yn amrywio o ranbarth i ranbarth. Mae Ffigur 4 isod yn dangos lefel y buddsoddi rhanbarthol a heb fod yn rhanbarthol ar gyfer pob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru.

Dengys Ffigur 5 fod nifer sylweddol o brosiectau yn gymharol fach o ran eu maint, gan dderbyn llai na £50,000 gyda dim ond 6 prosiect yn derbyn dros £1 miliwn. Roedd y prosiect lleiaf a ariannwyd yn brosiect 'Sied Dynion' ataliol ac ymyrraeth gynnar yng Ngogledd Cymru a dderbyniodd £1,470, a'r prosiect mwyaf oedd y Gwasanaeth Gofal Canolraddol rhanbarthol ym Mae'r Gorllewin a dderbyniodd £5.7 miliwn.

Mae'n bwysig nodi er y gall prosiectau strategol mwy gael llawer o effaith gadarnhaol ar niferoedd mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau, gall prosiectau llai gyda lefelau is o fuddsoddiad gael effeithiau cadarnhaol sylweddol hefyd ar fywydau'r rhai y maent yn eu cefnogi. Yn aml, gallant ddarparu gwerth da am arian a darparu cyfrwng profi defnyddiol a llai hefyd lle gall agweddau cyflawni llwyddiannus dyfu a chael eu cyflawni ar raddfa fwy ar gyfer blynyddoedd i ddod.

### Ffigur 5 – Nifer y prosiectau yn ôl maint



### Gwariant 2018-19 yn ôl math o brosiect

Mae Ffigur 6 yn dangos buddsoddiad y Gronfa ledled Cymru yn ôl 'math' o brosiect neu wasanaeth. Mae prosiectau wedi'u grwpio yn un o 15 math o brosiect. Mae disgrifiad o'r mathau o brosiectau ar dudalen 18.


Unwaith eto, mae'n bwysig nodi er ein bod yn cydnabod bod rhai prosiectau'n fawr ac yn gymhleth ac yn cwmpasu mwy nag un o'r mathau o brosiectau a restrir isod, at ddibenion yr adroddiad hwn mae prosiectau wedi'u grwpio yn ôl eu prif swyddogaeth.

O ystyried bod 58% o gyllid y Gronfa yn 2018-19 wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau a gwasanaethau ar gyfer pobl fregus a phobl hŷn, nid yw'n syndod gweld bod 197 (47%) o'r prosiectau a gyflawnwyd yn canolbwyntio ar ofal canolraddol, cyflwyno'r cynllun gweithredu ar dementia a gwasanaethau aros gartref/dychwelyd adref.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi'r 147 o brosiectau a restrir o dan dimau cymunedol integredig, cymorth cynnar ac atal, mynediad at wasanaethau, iechyd a lles emosiynol a Phresgripsiynu Cymdeithasol (sef cyfanswm o 27% o'r buddsoddiad) sydd â ffocws cryf ar atal ar lefel gymunedol.

Yn 2018-19 dewisodd byrddau partneriaeth rhanbarthol fuddsoddi £1.76 miliwn (3%) i ddatblygu eu seilwaith rhanbarthol. Mae'r symiau a fuddsoddwyd yn y maes hwn yn amrywio'n fawr o ranbarth i ranbarth ond disgwyliwn weld mwy o fuddsoddi yn y maes hwn yn 2019-20 yn unol â'r pwysigrwydd cynyddol a roddir ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol fel cyfryngau cyflawni allweddol ar gyfer Cymru Iachach.

### Ffigur 6 – Gwariant gwirioneddol 2018-19 yn ôl math o brosiect



Tabl 3 – Nifer y Prosiectau: Math o Brosiect fesul Rhanbarth

| | Cymru gyfan | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Gwent | Gogledd Cymru | Powys | Gorllewin Cymru | Bae'r Gorllewin | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal / llwybr canolraddol | 0 | 2 | 4 | 8 | 3 | 3 | 4 | 1 | 31 |
| Aros gartref / Dychwelyd adref | 0 | 3 | 3 | 25 | 12 | 6 | 12 | 4 | 65 |
| Dementia | 0 | 6 | 9 | 13 | 31 | 4 | 10 | 34 | 107 |
| Timau Cymunedol Integredig | 0 | 1 | 0 | 3 | 7 | 2 | 1 | 0 | 14 |
| Cymorth Cynnar ac Atal | 0 | 0 | 1 | 10 | 19 | 4 | 7 | 4 | 45 |
| Mynediad i Wasanaethau | 0 | 3 | 1 | 5 | 8 | 6 | 5 | 9 | 37 |
| Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 8 |
| Cam-i-fyny / cam-i-lawr | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 1 | 1 | 12 |
| Iechyd a Lles | 0 | 1 | 0 | 17 | 8 | 6 | 2 | 3 | 37 |
| WCCIS | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 8 |
| Seilwaith a Chomisiynu Rhanbarthol | 0 | 3 | 0 | 3 | 6 | 11 | 2 | 6 | 31 |
| Presgripsiynu Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 11 | 1 | 1 | 0 | 1 | 14 |
| Cymorth i Deuluoedd | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Asesiad a Diagnosis | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 | 6 |
| Atebion Llety | 0 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 | 7 |
| **Cyfanswm** | **2** | **26** | **20** | **104** | **106** | **56** | **47** | **68** | **426** |

# Geirfa Math o Wasanaeth

At ddibenion yr adroddiad hwn, diffiniwyd mathau o wasanaethau i gynnwys y mathau canlynol o wasanaethau/prosiectau refeniw:

## Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae prosiectau yn y maes hwn yn helpu i gysylltu pobl â gwasanaethau a gweithgareddau yn eu cymunedau lleol eu hunain i ddarparu cymorth a chefnogaeth gynnar, ac atal unigrwydd ac ynysigrwydd. Byddai prosiectau fel cysylltwyr cymunedol a llyw-wyr cymunedol yn cael eu cynnwys yn y math hwn o wasanaeth.

## Cymorth Cynnar ac Atal

Nod prosiectau yw cadw pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol ac maent yn cynnwys atal cwympiadau, mynediad i wasanaethau cymunedol, gwasanaethau cyfeillio, cadw'n iach ac egnïol.

## Mynediad i Wasanaethau

Mae'r prosiectau'n cynnwys cynlluniau Pwyntiau Mynediad Unigol, Cyngor a Chymorth Gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth gyda golwg ar helpu pobl, (gan gynnwys gofalwyr), i gael mynediad hawdd a chyflym i bob math o wasanaethau yn eu hardal leol.

## Iechyd a Lles Emosiynol

Mae'r prosiectau hyn yn cynnig cymorth cynnar ac ataliol ym maes iechyd meddwl fel atal unigrwydd ac ynysigrwydd, prosiectau gwydnwch a lles.

## Cymorth i Deuluoedd

Mae'r prosiectau'n cynnwys gofal seibiant i deuluoedd a gofalwyr, cyfleoedd dydd, cadw plant gyda'u teuluoedd, cefnogi plant ag anghenion cymhleth i bontio i fod yn oedolion. Gyda buddsoddiad ychwanegol yn 2019-20 i blant a phobl ifanc byddwn yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn y mathau hyn o brosiectau y flwyddyn nesaf.

## Timau Cymunedol Integredig

Yn cael ei gynnig fel dewis arall yn lle derbyn i'r ysbyty, mae timau amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol (nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac asiantaethau trydydd sector) yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu pecynnau gofal a chymorth di-dor i bobl yn eu cymunedau eu hunain.

## Aros gartref / Dychwelyd adref

Rhyddhau o wasanaethau ysbyty, darparu gofal cymdeithasol a meddygol yn y cartref yn hytrach na throsglwyddo i'r ysbyty, technolegau cymorth i helpu pobl i gadw'n iach gartref, atal cwympiadau, ail-alluogi, archwiliadau diogelwch yn y cartref, addasiadau yn y cartref gan gynnwys gwasanaethau gofal a thrwsio, gofal cartref, cludiant i'r ysbyty, gwasanaethau gofal cofleidiol cymunedol.

## Atebion llety newydd

Mae'r prosiectau'n ymwneud â darparu addasiadau i'r cartref fel y gall pobl barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, yn ogystal â llety â chymorth i bobl ag anableddau dysgu. Gall prosiectau gynnwys costau darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf y Gronfa.

## Asesiad a Diagnosis

Nod y prosiectau yw sicrhau bod pobl yn cael y driniaeth gywir, yn y lle cywir ar yr adeg gywir a chynnwys asesiadau cyfannol newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sicrhau y gall pobl gyflawni eu canlyniadau lles personol eu hunain.

## Gofal / Llwybr Canolraddol

Mae'r prosiectau'n cynnwys cydgysylltwyr llif cleifion, gwasanaethau cyswllt cartrefi gofal/preswyl, cynlluniau atgyfeirio cleifion, timau ymateb acíwt, rhith-wardiau.

## Cam-i-fyny / Cam-i-lawr

Mae'r rhain yn welyau sy'n cynnig dewis arall yn lle ysbyty er mwyn i unigolion allu adfer ar ôl cyfnod o salwch gyda chymorth proffesiynol. Gall y gwasanaeth gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

### Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia

Nod y prosiectau yw cefnogi unigolion â dementia i gynnal eu hannibyniaeth a byw o ddydd i ddydd drwy'r dull 'tîm o amgylch yr unigolyn' a chlinigau cof sy'n cefnogi diagnosis amserol. Roedd y prosiectau'n cynnwys cefnogi cymunedau sy'n deall dementia a gweithgareddau fel caffis dementia hefyd. Mae aelodau'r teulu a gofalwyr yn cael eu cefnogi hefyd drwy, er enghraifft, ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gofal seibiant.

### Seilwaith a Chomisiynu Rhanbarthol

Mae'n cynnwys costau rheoli prosiect a rhaglenni'r Gronfa, cymorth a datblygiad y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gweithgarwch comisiynu rhanbarthol, astudiaethau dichonoldeb, ymchwil a gwerthuso.





# System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

System ddigidol unigol yw WCCIS a fydd yn helpu i gyflawni trefniadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chydgysylltiedig i ddinasyddion yn y gymuned. Mae'n galluogi rhannu gwybodaeth hanfodol â gweithwyr rheng flaen yn y gymuned megis gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, gweithwyr iechyd meddwl, nyrsys cymunedol a mwy i hwyluso'r gwaith o gydlynu achosion a rheoli llif gwaith ar draws ffiniau sefydliadau.

Ers ei gyflwyno yn 2016 mae gan WCCIS fwy na 11,000 o ddefnyddwyr ar draws 13 sefydliad byw bellach. Mae defnyddwyr mewn nifer o fyrddau iechyd yn defnyddio'r system eisoes fel rhan o dimau iechyd a gofal cymunedol integredig ac mae'r defnyddwyr hyn eisoes yn gweld manteision o allu rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r arian sydd wedi bod ar gael gan y Gronfa ar gyfer rhaglen WCCIS ers 2017 wedi bod yn ganolog i gefnogi'r gwaith o ddatblygu timau rhanbarthol ym mhob un o'r 7 rhanbarth sy'n gallu darparu cymorth mwy cydgysylltiedig i baratoi a gweithredu'r system ar draws pob rhanbarth. Mae'r timau rhanbarthol hyn yn sicrhau bod gweithredu system WCCIS yn cyd-fynd yn effeithiol â modelau trawsnewid gwasanaeth wrth iddynt symud tuag at fwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned, yn unol ag uchelgeisiau Cymru Iachach.

Mae timau rhanbarthol wedi cefnogi datblygu, profi a threialu swyddogaethau newydd y system wrth iddynt gael eu rhyddhau hefyd. Mae hyn wedi cynnwys datblygiadau mewn galluoedd gweithio symudol, sy'n arbennig o bwysig ar gyfer gofal sydd wedi'i leoli'n gynyddol yn y gymuned, a gofal yn cael ei ddarparu mewn ardaloedd anghysbell. Mae'r gwaith 'prawf o gysyniad' gan dîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig Trem y Môr, gan ddefnyddio WCCIS, wedi darparu tystiolaeth astudiaeth achos bywyd go iawn i gefnogi gwaith gweithredu a gwireddu manteision ledled Cymru. Ymhlith y manteision penodol a wireddwyd hyd yma mae:

- effeithlonrwydd gwell – defnydd mwy dyfeisgar o amser/teithio

Welsh Community Care Information System

- gofal gwell a mwy diogel drwy:
    - wybodaeth a rennir ar draws timau integredig
    - archwilio gwell gan roi tystiolaeth o gydymffurfiaeth â safonau proffesiynol
    - gwell gwybodaeth weithredol
    - mynediad uniongyrchol i statws achos, gan wella effeithlonrwydd a gwasanaeth cwsmeriaid
    - gwell ansawdd data
- cymorth i newid diwylliant, trawsnewid gwasanaethau a gweithio'n fwy ystwyth
- ymholiadau a phryderon gan y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a chleifion yn cael eu trin yn gyflymach.

Mae'r timau rhanbarthol yn dod yn fwyfwy pwysig o ran cydlynu gwaith gyda thîm cenedlaethol WCCIS er mwyn sicrhau bod y system weithredol yn parhau i berfformio'n effeithiol a bod datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu cydlynu ar draws Cymru gyfan.

## Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Datblygwyd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig mewn ymateb i ymgynghoriad eang ledled Cymru yn 2015 a dynnodd sylw at ddiffyg cefnogaeth i oedolion awtistig nad oeddent yn gymwys i dderbyn gwasanaethau statudol.

Ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ariannu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig cenedlaethol newydd i ddarparu:

- cyngor a hyfforddiant i deuluoedd a gofalwyr plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig;
- cyngor, cymorth ac ymyriadau ar gyfer pobl awtistig, i'w helpu gyda'u bywydau bob dydd;
- hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol, i'w helpu i ddeall anghenion pobl awtistig pan fyddant yn darparu gwasanaethau, gofal a chymorth;
- darpariaeth integredig o wasanaethau a chymorth ar draws awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol;
- timau o weithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth yn y gymuned leol, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith, a gweithwyr nyrsio a chymorth ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol;
- gwasanaethau diagnostig a chymorth ar ôl diagnosis i oedolion.

Yn 2018-19, darparodd y Gronfa £3 miliwn i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Gronfa'n rhanbarthol. Buddsoddwyd adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru hefyd i gynorthwyo'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i barhau i ddarparu adnoddau rheolaidd (£3 miliwn y flwyddyn) y tu hwnt i 2021 i gefnogi gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cod ymarfer sydd ar y gweill, a fydd yn rhoi eglurder ar wasanaethau awtistig.

Er ei bod wedi cymryd cryn dipyn o amser i sicrhau bod gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ledled Cymru staff llawn, mae profiadau pobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth wedi gwella'n gyffredinol wrth i wasanaethau ddatblygu. Yn ôl gwerthusiad diweddar, roedd y rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn galonogol, o gymryd bod gwasanaethau'n gallu ymdopi â'r galw, cadw staff a sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth y tu hwnt i 2021.

Mae pob un o'r saith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig rhanbarthol wedi gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl, i egluro llwybrau atgyfeirio a sicrhau bod oedolion awtistig yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth sy'n gallu diwallu eu hanghenion orau.

**Mae'r Gwasanaethau wedi gweithio gyda phartneriaid hefyd:**

- drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i gynyddu eu gallu;
- trwy atgyfeirio, cyfeirio a chefnogi oedolion awtistig a hefyd aelodau'r teulu a gofalwyr i gael mynediad at wasanaethau eraill;
- trwy weithio ar y cyd, i sicrhau bod anghenion oedolion awtistig sydd weithiau'n gymhleth, yn cael eu diwallu.
- Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau wedi dod yn gynyddol gadarnhaol dros amser, ac mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi:
  - gwella gallu ac ansawdd gwasanaethau asesu a diagnosis i oedolion yn sylweddol, gyda'r effeithiau mwyaf mewn ardaloedd fel Cwm Taf, lle'r oedd gwasanaethau asesu oedolion yn gyfyngedig;
  - darparu cymorth gwerthfawr i oedolion nad oes modd diwallu eu hanghenion gan wasanaethau anabledd dysgu neu iechyd meddwl, gan lenwi bwlch allweddol mewn darpariaeth gwasanaethau;
  - darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gwerthfawr i rieni a gofalwyr, sy'n aml yn methu cael mynediad at hyn gan wasanaethau niwroddatblygiadol plant, o ystyried y pwysau y mae'r gwasanaethau hyn yn ei wynebu; ac
  - darparu canolbwynt ar gyfer cydgrynhoi arbenigedd ym maes awtistiaeth ac adnodd ar gyfer cydweithio, ymgynghori, cyngor a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau gwasanaethau eraill, yn fwyaf nodedig gwasanaethau iechyd meddwl.

## Enghraifft dda (Gogledd Cymru)

Atgyfeiriwyd 'John' at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig am gymorth gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Roedd John yn dioddef o orbryder difrifol a chyfnodau o hwyliau isel iawn, a oedd wedi arwain at esgeuluso ei hun. Roedd yn cael anawsterau gyda chyfathrebu cymdeithasol ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a oedd yn arwain at broblemau yn y gwaith a theimlo ei fod yn cael ei erlid yn y gwaith. Roedd wedi dioddef trawma eithafol yn ei fywyd ac roedd yn teimlo nad oedd ganddo unrhyw ddealltwriaeth o'i awtistiaeth.

Derbyniodd John sylw 1-1 yn ymwneud â strategaethau i reoli gorbryder a hwyliau isel. Darparwyd adnoddau a rhoddwyd ymyriadau ar waith, megis mapio lefelau gorbryder a chofnodi sefyllfaoedd cymdeithasol anodd oedd yn cael eu trafod wedyn. Creodd John, ynghyd â gweithiwr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, straeon cymdeithasol ar gyfer rhyngweithiadau cymdeithasol anodd, gan eu creu a'u llunio eu hun yna eu defnyddio yn y gweithle.

Yn dilyn y gefnogaeth hon, dywedodd John ei fod yn hapus yn y gweithle a bod ganddo'r hyder i drafod yn agored gyda'i gydweithwyr pan fydd yn anhapus neu ddim yn deall rhywbeth. Dywed John ei fod yn hapusach o ran ei hwyliau a'i fod bellach yn rhyngweithio'n gymdeithasol ac wedi datblygu rhwydwaith cymdeithasol mwy. Mae'r gwaith sy'n ymwneud â datblygu gwell dealltwriaeth o'i awtistiaeth wedi rhoi digon o hyder iddo i'w drafod gyda phobl.



## Buddsoddiad cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig 2018-19

Yn wreiddiol, roedd rhaglen gyfalaf y Gronfa yn gyfanswm o £10 miliwn y flwyddyn ledled Cymru. Cynyddwyd hyn wedyn i raglen dair blynedd gwerth £105 miliwn a oedd yn cynnwys £30 miliwn yn 2018-19, £35 miliwn yn 2019-20 a £40 miliwn yn 2020-21. Ynghyd â'r cynnydd hwn, mae Gweinidogion wedi rhoi mwy o bwyslais ar brosiectau sy'n cynyddu'r cyfraniad y gall sefydliadau tai ei wneud i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio'n benodol ar atebion llety.

Nod y gronfa yw cefnogi prosiectau sy'n lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, ac oedi wrth drosglwyddo gofal. Darparwyd cymorth i amrywiaeth o brosiectau sy'n cyflawni'r amcanion hyn yn cynnwys tai gofal ychwanegol i bobl hŷn, cartrefi yn y gymuned i bobl ag anableddau dysgu ac ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth, ynghyd â chyfleusterau sy'n cryfhau gwasanaethau gofal a chymorth i'r rhain a grwpiau eraill yn cynnwys y rhai sydd â dementia.


Erbyn hyn, mae yna enghreifftiau ym mhob rhanbarth o sefydliadau tai'n cyfrannu mwy at leihau'r baich ar y GIG a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r amser arwain maith sydd ei angen i gefnogi prosiectau cyfalaf arloesol ac i fynd ati gyda chydweithwyr yn y rhanbarthau i ystyried sut y gellir rhoi blaenoriaeth i flaenoriaethau strategol ar sail achosion amlinellol ar gyfer buddsoddiad sy'n cyfleu hanfod y gwelliant a gynigir ac ar y ddealltwriaeth y gellir datblygu achosion busnes manylach i gefnogi'r cam adeiladu.

Rydym wedi gweld cyfalaf y Gronfa'n gatalydd i ddwyn rhaglenni cyfalaf eraill Llywodraeth Cymru ynghyd fel y Grant Tai Cymdeithasol a Buddsoddiad Seilwaith GIG Cymru er mwyn darparu gwasanaethau amlweddog, fel tai Gofal Ychwanegol ochr yn ochr â meddygfeydd a gwasanaethau cymdeithasol cymunedol.

Fel rhan o'n hymgyrch i sicrhau partneriaethau rhanbarthol cryfach, mae Gweinidogion wedi cytuno y dylai sefydliadau tai fod yn aelodau statudol o'r byrddau partneriaeth rhanbarthol. Daeth hyn i rym ym mis Ebrill 2019 a'r bwriad yw galluogi tai i wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy at yr agenda integreiddio.


Ynghyd â'r prosiectau strategol mawr, mae buddsoddiad cyfalaf y Gronfa'n cael ei ddefnyddio i ddarparu atebion darparu gwasanaethau integredig, cyfarpar arbenigol a chymhorthion ac addasiadau ar gyfer cartrefi pobl. Mae'r rhain i gyd yn hanfodol i leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, ac oedi wrth drosglwyddo gofal.

### Ffigur 7 - Buddsoddiad cyfalaf Cymru gyfan




Troednodyn: Gall prosiectau sy'n elwa o gyfalaf y Gronfa wneud hynny dros sawl blwyddyn. Felly mae'n bosibl y bydd rhai prosiectau a ariannwyd yn 2018-19 yn cael arian ychwanegol mewn blynyddoedd ariannol eraill hefyd. Yn ogystal, gallai prosiectau a ariennir gyda chyfalaf y Gronfa fod o fudd i nifer o Feysydd Blaenoriaeth. Er enghraifft, gall eiddo a ddatblygir i ddarparu gwasanaethau integredig neu ddarparu atebion tai fod o fudd i bobl hŷn a phobl â dementia, felly bydd y ddau faes blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai sy'n elwa. Dyma pam mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn dod i gyfanswm uwch na'r dyraniad Cenedlaethol.

### Ffigur 8 - Gwariant yn ôl Math o Brosiect



| Mathau o brosiect cyfalaf | Nifer y prosiectau | Gwariant |
|---|---|---|
| **Atebion a arweinir gan lety** i iechyd a gofal cymdeithasol megis prynu ac ailfodelu eiddo ar gyfer cyfleusterau arbenigol ar draws meysydd y grwpiau blaenoriaeth, darparu gwasanaethau seibiant a darpariaeth cam-i-fyny/cam-i-lawr. | 28 | £10,131,934 |
| **Cyfleusterau integredig** – megis dull "hyb" rhanbarthol o ddarparu gwasanaeth a arweinir gan y Gronfa). Mae hyn wedi cynnwys ailfodelu adeiladau yn ogystal â darpariaeth newydd. | 16 | £4,045,918 |
| **Integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a/neu dai mewn ffordd newydd ac arloesol** megis cymorth i bentrefi dementia yn ogystal ag estyniadau i ysgolion arbenigol. | 6 | £3,183,551 |
| **Prosiectau cyfarpar ar raddfa fwy** – i gefnogi integreiddio ac amcanion y Gronfa megis gwelyau arbenigol peripatetig i'w defnyddio dros dro yng nghartrefi pobl. | 6 | £2,042,838 |
| **Ailfodelu neu addasu adeiladau ar raddfa fwy** megis adnewyddu cyfleusterau cyfredol i ddarparu gwasanaethau integredig newydd/wedi'u gweddnewid ar draws pob maes grŵp blaenoriaeth. | 14 | £3,289,010 |
| **Astudiaethau dichonoldeb** – Gwariant i archwilio neu ddangos tystiolaeth o ddichonoldeb buddsoddiad cyfalaf mawr. | 2 | £106,220 |
| **Rhaglen Gyfalaf Ddewisol** – prosiectau o dan £100,000 ac o fewn tua 20% o ddyraniad pob rhanbarth ar gyfer prosiectau ar raddfa lai | 136 | £7,200,529 |
| Cyfanswm | | **£30,0000,0000** |

## Cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-19

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 yn datblygu ymrwymiadau'n ymwneud â dementia sydd yn Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb gan nodi'r rhanddeiliaid amrywiol sy'n cefnogi'r agenda hon a'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau newid gwirioneddol. Cafodd y cynllun ei ddatblygu gyda'r rhai sydd fwyaf gwybodus am yr hyn sydd angen ei wneud i wella gwasanaethau dementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn gwirionedd – y rhai sydd â phrofiad o ddementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr a darparwyr gwasanaethau.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, gofynnwyd i fyrddau partneriaeth rhanbarthol adolygu gwasanaethau dementia a llwybrau gofal presennol ym mhob maes a datblygu gwasanaethau a oedd yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ganfuwyd, yn unol â'r cynllun dementia. Roedd angen arian newydd a ddyrannwyd i'r Gronfa i gefnogi prosiectau a gwasanaethau newydd ar gyfer pobl â dementia, neu i ehangu neu ddatblygu prosiectau sy'n bodoli'n barod.

In the first year of implementation regional partnership boards were asked to review existing dementia services and care pathways in each area and develop services which addressed any gaps identified, in line with the dementia plan. New money allocated to ICF was required to support new projects and services for people with dementia, or to expand or develop projects that already exist.

Roedd disgwyl i'r cynigion a gyflwynwyd ddangos sut yr oeddent wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu eu cynlluniau buddsoddi, ystyried rôl y sector gwerth cymdeithasol wrth gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun a dangos mynediad teg ar draws y boblogaeth gan roi ystyriaeth ddyladwy i'r holl nodweddion gwarchodedig. Roedd yn ofynnol iddynt ddangos sut yr oeddent yn cefnogi'r canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia hefyd. Y canlyniadau yw:

- bydd unigolion yn deall y camau y gallant eu cymryd i leihau'r risg o gael dementia neu i ohirio dementia'n dechrau
- mae'r boblogaeth ehangach yn deall yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw gyda dementia ac yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i'w helpu nhw
- mae pobl yn ymwybodol o arwyddion cynnar dementia; pwysigrwydd diagnosis amserol; ac yn gwybod ble i fynd i gael cymorth
- mae mwy o bobl yn cael diagnosis yn gynt, sy'n eu galluogi i gynllunio at y dyfodol a chael gafael ar gymorth a gofal cynnar os oes angen
- mae'r rhai sydd wedi cael diagnosis o ddementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd yn gallu derbyn gofal a chymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- mae gwaith ymchwil yn cael ei gefnogi er mwyn ein helpu i ddeall achosion dementia'n well a sut i'w reoli, ac yn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr, i fod yn gyd-ymchwilwyr
- mae gan staff y sgiliau i'w helpu i weld pan fo gan bobl ddementia a theimlo'n ddigon hyderus a chymwys i gefnogi anghenion yr unigolyn ar ôl cael diagnosis.

2018-19 oedd blwyddyn gyntaf y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia ac felly yn ôl y disgwyl cafwyd cyfnod cychwynnol ar gyfer gweithredu'r camau, gyda oddeutu £6.3 miliwn o arian y cynllun yn cael ei ddyrannu o gyllideb o £9 miliwn, a 106 o brosiectau'n cael eu cefnogi dros y flwyddyn. Drwy'r Gronfa yn 2018-19 cefnogwyd prosiectau amrywiol, gan gynnwys:

- cymorth ychwanegol i unigolion a theuluoedd yn unol ag egwyddorion 'tîm o amgylch yr unigolyn'
- clinigau cof arbenigol a gefnogir gan feddygon teulu
- hyfforddi staff iechyd a gofal cymdeithasol mewn ' Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru' i wella cymwyseddau dysgu ar y lefel 'fedrus'
- cynyddu nifer y cymunedau Cyfeillion Dementia a chyllid penodol ar gyfer grwpiau trydydd sector/cymunedol i gynyddu nifer y gweithgareddau sy'n deall dementia sydd ar gael.

Rhagwelir y bydd cyllidebau llawn yn cael eu defnyddio o 2019-20 ymlaen ac y bydd adroddiadau ar gynnydd y blynyddoedd i ddod yn cynnwys enghreifftiau o brosiectau a thystiolaeth ar effaith canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

## Gwersi a ddysgwyd ac edrych ymlaen

Mae'r Gronfa'n ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a bydd y cyllid yn parhau tan 2021. Yn 2019-20 buddsoddwyd £30 miliwn o refeniw ychwanegol yn y Gronfa i gynnwys cymorth pellach i bobl hŷn, gofalwyr a phlant sy'n derbyn gofal neu mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal. Daw hyn â chyfanswm gwerth cronfa refeniw'r Gronfa i £89 miliwn y flwyddyn.

Yn 2018-19 mae swyddogion arweiniol rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig wedi gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn allweddol yn rhannu eu profiadau a'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen i helpu i lunio darpariaeth yn y dyfodol.

Ar sail yr hyn y mae pawb wedi'i ddysgu o'n darpariaeth o raglen y Gronfa hyd yn hyn, ac er mwyn cryfhau ei darpariaeth a'i heffaith ymhellach, rydym wedi diwygio'r canllawiau ar gyfer 2019-20 sy'n cynnwys pwyslais o'r newydd ar:

- atal ac ymyrryd yn gynnar
- gweithio'n rhanbarthol ac integreiddio
- buddsoddi a chyflawni yn y sector gwerth cymdeithasol
- canolbwyntio ar gymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i ofalwyr
- gwerthuso effaith a chanlyniadau
- prif-ffrydio dysgu a modelau darparu newydd
- gwella cyfathrebu mewn perthynas â chyflawni rhaglenni ac effeithiau.

Ym mis Ebrill, er mwyn cefnogi'r agenda integreiddio mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y sector addysg, tai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn aelodau statudol o fyrddau partneriaeth rhanbarthol.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol hefyd i wella ein gallu i adrodd ar effeithiau a chanlyniadau rhaglen y Gronfa ar lefel genedlaethol. Cafodd ein gwaith yn y maes hwn ei ategu ymhellach gan yr argymhellion a wnaed yn adolygiad 2019 Swyddfa Archwilio Cymru o'r Gronfa.

Mae gofynion adrodd newydd eisoes wedi'u sefydlu i sicrhau bod mwy o ddata manwl yn cael ei gasglu ac y gellir cwblhau dadansoddiad manylach o wariant ac effaith ar gyfer adroddiad blynyddol 2019-20.

Er bod prosiectau unigol yn gallu dangos manteision ac effeithiau eu gwasanaethau unigol ar hyn o bryd, mae'n anodd disgrifio hyn ar lefel rhaglen neu genedlaethol oherwydd yr amrywiaeth eang o brosiectau sy'n cael eu hariannu ac amrywioldeb y wybodaeth a'r data sydd ar gael ledled Cymru

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda Chronfa Trawsnewid 'Cymru Iachach' i sefydlu'r dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau ymhellach wrth fesur effeithiau. Bydd arweinwyr rhanbarthol a rheolwyr prosiectau yn cael hyfforddiant a chymorth i sicrhau y gellir datblygu dull mwy safonol a fydd yn ein galluogi i ddisgrifio effeithiau'r Gronfa ar lefel prosiectau a rhaglenni.


Bydd gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa yn 2019-20 yn darparu tystiolaeth ychwanegol o effaith y rhaglen hyd yn hyn ac yn ein helpu i lunio rhaglenni ariannu ar gyfer y dyfodol i gefnogi'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.




# Proffiliau Rhanbarthol

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro


### Dyraniadau Caerdydd a'r Fro




### Gwariant yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect





## Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Heb fod yn rhanbarthol





| Ardal | Swm y gwariant | % |
|---|---|---|
| Heb fod yn rhanbarthol | £1,051,619 | 16.74 |
| Rhanbarthol | £5,229,669 | 83.26 |

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf


## Dyraniadau Cwm Taf




## Gwariant yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect





## Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Heb fod yn rhanbarthol





| Ardal | Swm y gwariant | % |
|---|---|---|
| Rhanbarthol | £5,160,554 | 100 |

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent


## Dyraniadau Gwent





## Gwariant yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Heb fod yn rhanbarthol





| Ardal | Swm y gwariant | % |
|---|---|---|
| Heb fod yn rhanbarthol | £4,838,624 | 54.26 |
| Rhanbarthol | £4,784,049 | 45.74 |


## Dyraniadau Gogledd Cymru




## Gwariant yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect





## Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Heb fod yn rhanbarthol





| Ardal | Swm y gwariant | % |
|---|---|---|
| Heb fod yn rhanbarthol | £8,668,924 | 75.59 |
| Rhanbarthol | £1,085,547 | 9.47 |
| Is-ranbarthol | £1,713,238 | 14.94 |


## Dyraniadau Powys




## Gwariant yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Heb fod yn rhanbarthol





| Ardal | Swm y gwariant | % |
|---|---|---|
| Rhanbarthol | £2,505,497 | 100 |


## Dyraniadau Gorllewin Cymru




## Gwariant yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect





## Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Heb fod yn rhanbarthol





| Ardal | Swm y gwariant | % |
|---|---|---|
| Heb fod yn rhanbarthol | £5,282,072 | 81.04 |
| Rhanbarthol | £1,235,617 | 18.96 |


## Dyraniadau Bae'r Gorllewin




## Gwariant yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Heb fod yn rhanbarthol




| Ardal | Swm y gwariant | % |
|---|---|---|
| Heb fod yn rhanbarthol | £259,492 | 3.22 |
| Rhanbarthol | £7,811,765 | 96.78 |

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Caerdydd a'r Fro – Gwasanaeth Byw'n Annibynnol

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£476,279

**Disgrifiad:**

Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn cynnig gwybodaeth am ddal gafael ar annibyniaeth, tai, cymorth ariannol, offer, mynediad at ofal i oedolion, a gwasanaethau'r trydydd sector. Roedd gan Fred anabledd corfforol oherwydd sepsis, a oedd yn effeithio ar y cyhyrau yn ei gefn ac yn achosi poen difrifol yn ei goesau. Cafodd ei gyfeirio at Swyddog Byw'n Annibynnol, a roddodd lifft baddon a chodwr gobennydd iddo i'w helpu i gysgu'n fwy cyfforddus yn ei wely. Hefyd, rhoddodd y gwasanaeth gymorth i Fred gyda'i faterion ariannol gan arbed arian iddo pan oedd modd.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Llwyddwyd i wella ansawdd bywydau **98%** o'r bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth.

**£3,889,875** o incwm ychwanegol i ddinasyddion Caerdydd.


Derbyniwyd **37,489** o alwadau a chynhaliwyd

**4,153** o ymweliadau cartref

Ymdriniodd y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn uniongyrchol â **76%** o'r ymholiadau a dderbyniodd y Gwasanaethau i Oedolion.

**Dyfyniad:**

"Llwyddodd cymorth y Therapydd Galwedigaethol a'r Swyddog Byw'n Annibynnol i helpu Fred i fyw'n annibynnol yn y cartref yr oedd wedi byw ynddo ers mwy na 40 mlynedd. Llwyddwyd hefyd i wella'i lesiant a lleihau'r angen am ymyrraeth gofal cymdeithasol."



REFENIW

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Caerdydd a'r Fro – Gwasanaethau Anabledd Integredig

## Pobl ag anableddau dysgu

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£635,000

**Disgrifiad:**

Mae Cynllun Peilot y Gwasanaethau Anabledd Integredig yn profi'r cysyniad o weithio integredig rhwng asiantaethau i leihau dyblygu, symleiddio gwasanaethau, lleihau cymhlethdod i rieni, ac efallai ddod o hyd i gyfleoedd i osgoi costau mewn gwasanaethau presennol. Llwyddodd y gwasanaeth i helpu Joshua a oedd wedi bod mewn gofal ers pan oedd yn fabi, ond a fabwysiadwyd pan oedd yn 16 mis. Pan oedd yn ddwyflwydd a hanner roedd yn dangos arwyddion o broblemau ymddygiadol ac roedd yn cael trafferth mynd i'r afael â thasgau o ddydd i ddydd. Cafodd ddiagnosis o anhwylder ar y synhwyrau – sef Oedi Datblygiadol Cyffredinol. Cafodd cyfarfodydd integredig eu trefnu, ynghyd â gwasanaethau seibiant, er mwyn cynorthwyo Joshua a'i deulu. Mae'r ffaith fod Joshua wedi'i gynnwys yn y cynllun peilot hwn yn golygu bod y gweithwyr proffesiynol i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i'w gynorthwyo.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Mae **94** (o blant a'u teuluoedd) yn cymryd rhan yn y cynllun peilot hwn.

Mae **24** oedolyn wedi cael seibiant gyda theulu cynnal yn hytrach na seibiant mewn cartref preswyl.

Mae **40** o adolygiadau llety byw â chymorth wedi'u cynnal ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth, i sicrhau eu bod yn gyfaddas i'r eiddo er mwyn eu galluogi i fyw'n agosach i adref.

Mae **30** o rieni wedi cymryd rhan mewn sesiynau grŵp 1-1 sy'n anelu at gynorthwyo rhieni plant ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) neu Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.

**Dyfyniad:**

"O'r diwedd, rydyn ni'n cael cyfarfodydd amlddisgyblaethol lle mae pawb yn eistedd o amgylch y bwrdd ac mae pawb yn gwybod beth sy'n digwydd. Rydw i'n gallu cynorthwyo gyda hynny yn y cartref hefyd."



REFENIW

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Caerdydd a'r Fro – Un Pwynt Mynediad

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£550,000

**Disgrifiad:**

Canolfan alwadau yw Un Pwynt Mynediad. Mae'n hwyluso mynediad cydgysylltiedig at awdurdod lleol Bro Morgannwg, y trydydd sector a gwasanaethau iechyd cymunedol amrywiol ar draws y rhanbarth, fel Nyrsys Ardal. Roedd Margaret a'i gŵr Craig yn ymlafnio gyda'u gwaeledd: roedd Margaret yn ceisio cael ei chefn ati ar ôl dioddef math o niwmonia ac roedd ei gŵr Craig yn dioddef o glefyd Parkinson ac nid oedd yn gallu symud rhyw lawer. Fel pâr, roeddynt yn cael trafferthion. Trwy gyfrwng gwasanaeth Un Pwynt Mynediad, cawsant becynnau cymorth gan Dîm Adnoddau Cymunedol y Fro, a threfnodd y Gwasanaethau Cymdeithasol asesiad. Roedd y Pecyn Cymorth Gartref yn Gyntaf yn cynnwys help gyda gofal personol a pharatoi prydau bwyd ysgafn, yn ogystal â chymorth emosiynol. Trwy gyfrwng pecyn arall, o'r enw 'Cynllun Cymydog Da Gorllewin y Fro', cawsant drafnidiaeth a chymorth gyda'u siopa. Bu'r Swyddog Hawliau Lles yn ymweld â nhw, gan helpu i lenwi ffurflenni Lwfans Gweini ar gyfer Margaret a Craig, a gafodd £130 yr wythnos.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Ymdriniwyd â **6,959** o atgyfeiriadau.

Cafodd **11,793** o atgyfeiriadau eu datrys heb fod angen eu cyfeirio ymlaen.

Cynorthwyodd y tîm brysbennu gyda **455** achos yn ymwneud â rhyddhau cleifion o ysbytai.

Llwyddwyd i ddatrys **79%** o holl wasanaethau oedolion Bro Morgannwg heb fod angen eu cyfeirio ymhellach.

**Dyfyniad:**

"Heb y gwahanol becynnau cymorth, byddai Margaret wedi gorfod ail-fynd i'r ysbyty a byddai iechyd a llesiant Craig wedi dirywio."

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwm Taf – Cynnydd mewn Capasiti o fewn Gwasanaethau Gofal Canolradd, Ailalluogi ac Ymateb Cychwynnol

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£468,898**

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect yn cynorthwyo pobl i adennill neu gynnal sgiliau a pharhau i fyw'n dda, mor annibynnol ag y bo modd. Gwasanaeth Tymor Byr (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) integredig ydyw sy'n cynnwys Gwasanaeth Ailalluogi arbenigol i bobl â nam gwybyddol neu broblemau cof. Mae'r astudiaeth achos hon yn ymwneud â gwaith Ailalluogi Cof. Mae amrywiaeth o staff cymwys yn cynorthwyo â'r elfen hon o'r gwasanaeth.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Erbyn Chwarter 4, roedd 5,095 awr o gymorth staff wedi'i roi i 215 o ddefnyddwyr (cafodd 60 o ddefnyddwyr wasanaeth Ailalluogi Cof arbenigol a oedd yn golygu 1,227 o oriau cymorth uniongyrchol).

Manteisiodd cyfanswm o 275 o bobl ar y gwasanaeth, gyda chyfanswm o 6,322 o oriau cymorth ychwanegol yn Chwarter 4. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 19,393 awr o gymorth staff wedi'i ddarparu.

Roedd **95.5%** o'r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn teimlo bod y gwasanaeth wedi eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain.

Roedd **89.5%** o'r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn teimlo eu bod wedi cyflawni eu hamcanion.

Cafodd **118** o atgyfeiriadau eu gwneud i'r prosiect cof.

Cafodd **99** o ddyddiau gwelyau eu harbed mewn perthynas â'r prosiect cof.

**Dyfyniad:**

**"Gwasanaeth gwych, a helpodd fy ngŵr i adennill ei hyder ar ôl dod adref, a helpu i gynnal ei ofal a'i annibyniaeth. Rwy'n gobeithio y bydd pethau'n gwella eto gyda chymorth y teulu. Staff gwych a gofalgar. Diolch o galon i chi i gyd."**

**REFENIW**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwm Taf – Y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£1,830,269**

**Disgrifiad:**

Mae'r gwasanaeth yn atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty ac yn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod allweddol pan fyddant yn dod i'r adran frys. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn gweithredu 365 dydd y flwyddyn o 8am tan 8pm yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau:
**777** cynnydd o 2% ers y chwarter diwethaf (diwedd chwarter 3).

**455**
o achosion o ryddhau o'r ysbyty wedi'u hwyluso gan y tîm brysbennu.

**353**
o atgyfeiriadau (cynnydd o 7% ers y chwarter cyntaf yn 17–18) wedi cael ymateb mewn llai nag awr.

**333**
wedi'u rhyddhau i'w cartrefi (cynnydd o 6% ers yr un chwarter yn 17–18).

**170**
o becynnau cymorth gofal cymdeithasol (cynnydd o 8% ers yr un chwarter yn 17–18).

**584**
o wasanaethau yn y gymuned wedi'u comisiynu i gefnogi'r broses ryddhau.

**Dyfyniad:**

"Dechreuodd fy nghynllun gofal ar noswaith y 7fed o Awst a phara tan y 14eg o Fedi. Mae'r sylw, y parch a'r agwedd gyfeillgar wedi bod yn ddiguro. Braint oedd cael gwasanaeth gan dîm mor anhygoel. Diolch yn fawr."

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwm Taf – Cydgysylltwyr Rhyddhau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£97,014

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect yn cynnwys trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr i gynorthwyo gyda threfniadau rhyddhau cleifion mewn pedwar ysbyty, er mwyn gwella'r cyfathrebu rhwng iechyd/gofal cymdeithasol mewn achosion cymhleth.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Proseswyd **601** o atgyfeiriadau trwy gyfrwng Cydgysylltwyr mewn tri safle ysbyty.

Roedd angen mwy o wybodaeth mewn **125** o atgyfeiriadau.

Cynorthwyodd Cydgysylltwyr mewn Ysbytai i ryddhau **601** o gleifion.

**Dyfyniad:**

“Roedd y staff yn dda iawn ac yn gyfeillgar – roedden nhw'n deall fy anghenion. Hoffwn ddweud diolch yn fawr iawn i bawb fu wrthi. Does gen i ddim byd ond canmoliaeth i'r tîm.”

REFENIW

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Gwent – 'My Mates'

## Pobl ag anableddau dysgu

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£160,000

**Disgrifiad:**

Mae tîm 'My Mates', sydd wedi'i gofrestru ar gyfer Cardiau C gyda GIG Cymru, yn cynnig cyngor, arweiniad a chymorth i Aelodau 'My Mates', mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Pobl yn Gyntaf, Anabledd Dysgu Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y GIG a'r Gymuned LGBTQ. Trwy gyfrwng 'My Mates', gall pobl ag anabledd dysgu gael mynediad at amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol; ac os ydynt yn gofyn, gallant gael cymorth i feithrin perthynas tra'n cael cynnig cyngor a gwybodaeth. Fe fydd 'My Mates' yn sicrhau y bydd gan bobl gyfeillion a bywyd cymdeithasol bywiog, y bydd gan bobl fwy o gyfleoedd i ffurfio perthnasau dyfnach a mwy dethol, ac y bydd pobl yn dod o hyd i rwydweithiau cymorth sy'n fwy naturiol ac sy'n gorwedd y tu allan i wasanaethau.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Cyfanswm o **172** o aelodau (ar 1 Ebrill 2019).





Dywedodd **100%** o'r aelodau fod ganddynt fwy o gyfeillion ers ymuno â 'My Mates'.

Roedd **92%** o'r aelodau'n fodlon gyda digwyddiadau 'My Mates' (roedd (**8%** yn dymuno i fwy o ddigwyddiadau gael eu cynnig yn eu cymuned).



**Dyfyniad:**

"Roedd y Ddawns yn anhygoel! Fe wnes i ddawnsio gyda 'nghyfeillion drwy'r nos. Roeddwn i mor hapus!"

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwent – Datblygu Gwasanaeth Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£701,991

**Disgrifiad:**

Unwaith y bydd pobl yn feddygol sefydlog, nid oes yn rhaid iddynt fod yn yr ysbyty i gymryd rhan yn y prosiect Adsefydlu. Mae'r Strategaeth Strôc Genedlaethol (Yr Adran Iechyd, 2007) yn amcangyfrif y gallai hyd at 50% o gleifion strôc elwa ar gymorth i gleifion a ryddheir yn gynnar. Mae'r prosiect yn ceisio sefydlu adnodd amlddisgyblaethol a all gynnig cymorth, adsefydlu ac integreiddio cymunedol i bobl sydd wedi cael strôc fach i ganolig trwy weithio gyda darparwyr presennol yn y gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector, gyda'r nod o wneud y gorau o annibyniaeth pobl a chynorthwyo pobl i fyw'n dda ar ôl cael strôc.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Cyfeirir
7
o gleifion yr wythnos at Gymorth i Gleifion a Ryddheir yn Gynnar y Gwasanaeth Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol.

O safbwynt rhyddhau pobl o ysbytai ar ôl strôc, cynorthwyodd y Gwasanaeth Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol gyda
51%
o'r achosion hyn.

63%
o'r cleifion yn hollol abl i gwblhau gweithgareddau byw hanfodol o ddydd i ddydd yn dilyn y gwasanaeth adsefydlu.

Gwelodd
64%
o'r cleifion gynnydd yn lefel eu hannibyniaeth.



**REFENIW**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwent – Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£391,348**

**Disgrifiad:**

Prosiect cydweithredol rhwng Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan lle rhoddir dull amlddisgyblaethol ar waith ar gyfer cwympiadau 999, sy'n cynnwys tîm o barafeddygon a ffisiotherapyddion. Mae'r gwasanaeth yn darparu asesiad cymdeithasol, gweithredol, meddygol llawn pan fo'i angen, fel y gellir cyfeirio'r cleifion at y llwybr gofal mwyaf priodol. Dyma wasanaeth ymateb amserol integredig i gleifion sydd wedi cwympo ac a fyddai wedi defnyddio gofal heb ei drefnu. Gellir cynnig y gofal yn nes adref neu yn y fan a'r lle yn dilyn cwymp, gan leihau derbyniadau diangen i'r adran argyfwng a gwella profiad y claf yn dilyn cwymp.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Hyd at fis Mawrth 2019, roedd **2,575** o gleifion wedi'u cynorthwyo gan y gwasanaeth.

Lleihad o **44%** yn nifer yr achosion a gaiff eu cyfeirio at Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Llai o oedi i gleifion a gaiff eu categoreiddio fel 'blaenoriaeth glinigol is'.

Gofalodd y gwasanaeth am **79%** o'r cleifion a oedd wedi cwympo, sy'n arwain at osgoi oddeutu £1 miliwn o gostau'r flwyddyn.

Gwella profiad cleifion trwy ei gwneud yn bosibl iddynt gael mynediad at wasanaethau priodol – gwasanaethau yn y gymuned ac yn yr ysbyty – yn hytrach na chael eu derbyn i'r adran argyfwng.

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gogledd Cymru – Parafeddygon Uwch – Prosiect Gofal Gwell Môn a Thylluanod Nos Ynys Môn

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£152,636**

**Disgrifiad:**

Tîm ‘ysbyty yn y cartref’ yw Tîm Gofal Gwell Môn. Maent yn rheoli cleifion oedrannus difrifol wael yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach nag yn yr ysbyty. Mae ganddynt fynediad at ddelweddau, profion pwynt gofal i adolygu canlyniadau gwaed, ac maent yn gweithio’n agos gydag asiantaethau eraill yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol/Timau Nyrsio Ardal/ysbytai cymunedol/meddygon teulu a chartrefi gofal. Mae’r tîm yn cynorthwyo cleifion ac yn dilyn eu hynt ar adegau priodol. Mae’r gwasanaeth hwn ar gael rhwng 09:00 - 17:00 yn ystod dyddiau’r wythnos yn unig. Mae Tylluanod Nos Ynys Môn yn galluogi gweithwyr Gofal Cymdeithasol i gynorthwyo pobl yr aseswyd bod ganddynt anghenion gofal yn ystod y nos rhwng 22:00 - 08:00, 7 noson yr wythnos. Mae’r gwasanaeth yn cynnwys ymweld â chartrefi pobl i roi gofal wedi’i gynllunio neu i ymateb i argyfwng e.e. cwympiadau neu achosion pan fydd rhwydweithiau gofal anffurfiol wedi methu. Nod gwasanaeth Tylluanod Nos Ynys Môn yw galluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn hirach ac atal derbyniadau diangen i’r ysbyty neu i gartref gofal preswyl. Ymhellach, mae’r prosiect yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ymateb i bobl sydd wedi cwympo ond nad ydynt wedi’u hanafu, er mwyn i staff yr ambiwlans allu delio ag argyfyngau mwy difrifol. Mae’r prosiect hefyd yn cynyddu’r gwasanaeth gofal sydd ar gael yn y gymuned, yn galluogi cleifion i gael eu rhyddhau o’r ysbyty’n ddiogel ac yn ymateb ar frys i bobl sy’n defnyddio’r system larwm a gaiff ei monitro gan Galw Gofal.

**Canlyniadau Perfformiad:**

(Parafeddygon Uwch – Prosiect Gofal Gwell Môn)

Cyfeiriwyd **294** o gleifion at Gofal Gwell Môn.

**89%** o bobl yn sôn am ganlyniadau llesiant gwell.

**252** nifer y derbyniadau i’r ysbyty y llwyddwyd i’w hosgoi; gostyngiad yn nifer y bobl a gâi eu cludo gan ambiwlans.

Arbedwyd **2,533.5** o ddyddiau gwely.

**Dyfyniad:**

(Tylluanod Nos Ynys Môn)

“Heb wasanaeth y Tylluanod Nos, fe fyddai fy mrawd yn sicr wedi gorfod mynd i gartref gofal preswyl. Mae’r gwasanaeth wedi ei alluogi i fyw gartref cyhyd â phosibl.”

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gogledd Cymru – Prosiect Cartrefi Gofal Conwy

## Pobl hŷn ag anghenion gofal cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

| | |
|---|---|
| **Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :** | **£178,629** |
| **Disgrifiad:** | Mae'r rhaglen waith wedi'i datblygu ar y cyd â chydweithwyr gofal heb ei drefnu a chydweithwyr iechyd cymunedol. Y nod yw creu Sector Cartrefi Gofal sefydlog, diogel a chynaliadwy, gwella profiad ein preswylwyr ac osgoi mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a/neu osgoi derbyniadau i'r ysbyty. Y nod ar hyn o bryd yw canolbwyntio ar fynediad at arbenigedd a pharhau i ymateb yn amserol i gleifion mewn Cartrefi Gofal, gan gydweithio gyda phrosiect Enghreifftiol Bevan. Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau bod gofal diogel, effeithiol, seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei gynnig i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal. Bydd hyn yn cynnwys darparu cymorth amlddisgyblaethol, cyngor, a sgiliau clinigol i gartrefi gofal yn ardal Conwy. |
| **Canlyniadau:** | **632** nifer y gwelyau sy'n rhan o'r rhaglen.  |
| **Dyfyniad:** | "Mae Ymarferydd Nyrsio Uwch yno bob amser i'n cynorthwyo, ac mae bob amser yn ffonio'n ôl pan fyddwn yn gadael neges... mae'r ymarferydd mor drylwyr pan mae yma, ac mor garedig ac ystyriol o'n preswylwyr." |

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gogledd Cymru – Asiantau Cymunedol Wrecsam

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£142,294

**Disgrifiad:**

Gwasanaeth lleol ar gyfer pobl dros 50 oed. Caiff Asiantau Cymunedol eu cyflogi gan Gynghorau Cymuned i gysylltu pobl hŷn yn eu hardal â'r wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth maent eu hangen i'w helpu i gael mynediad at eu cymuned leol a byw'n annibynnol.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Cynnydd mawr yn nifer y bobl sydd wedi cael cymorth – targed o 77, ond cynorthwywyd 265 mewn gwirionedd.

Cynnydd mewn gweithgareddau gwirfoddoli ar draws cymunedau.

Nifer o grwpiau cymunedol newydd wedi'u sefydlu e.e. 'Siediau Dynion' a grwpiau cerdded.

Mwyfwy o atgyfeiriadau gan feddygfeydd meddygon teulu sy'n gweithio gydag Ymarferwyr Cymdeithasol.

Lefel bodlonrwydd uchel ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth – 76% yn llai ynysig / 83% yn sôn am wahaniaeth cadarnhaol.

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Powys – Gwasanaeth Cyfeillio, Cysylltwyr Cymunedol a Chymorth yn y Cartref

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£130,000 (Gwasanaeth Cyfeillio)**
**£355,000 (Cysylltwyr Cymuned)**
**£105,000 (Cymorth yn y Cartref)**

**Disgrifiad:**

Tri phrosiect gwahanol a chanddynt nod cyffredin, sef darparu cymorth yn nes adref trwy roi dull cydweithredol, ataliol, seiliedig ar ymyrraeth gynnar ar waith, gan arwain at ganlyniadau gwell i drigolion Powys trwy ganiatáu iddynt fyw a heneiddio'n dda yn eu cymunedau.

Mae'r **Gwasanaeth Cyfeillio** yn gwella annibyniaeth pobl 50+ oed er mwyn iddynt allu cynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol a pharhau i aros yn eu cartrefi cyhyd ag y bo modd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cwmnïaeth a chymorth gwerthfawr, yn helpu i hyrwyddo dewis personol, yn gwella hunan-barch pobl ac yn ategu sgiliau presennol pobl fel y gellir gwella eu hannibyniaeth. Hefyd, mae'n helpu pobl i archwilio cyfleoedd newydd ac yn lleihau'r baich ar bobl eraill e.e. gofalwyr.

Mae'r **Cysylltwyr Cymunedol** yn cynorthwyo oedolion i gael gafael ar y gwasanaethau cymunedol iawn ar yr amser iawn, gan weithio gyda'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector gyda golwg ar atal a darparu ymyrraeth gynnar. Mae'r prosiect yn cynorthwyo gyda gwasanaethau fel cludo, siopa, casglu presgripsiynau, glanhau a garddio. Hefyd, mae'n arwain neu'n cyfeirio pobl at wasanaethau'r trydydd sector a gwasanaethau unigrwydd ac ynysrwydd cymdeithasol, caiff sesiynau galw heibio rheolaidd eu cynnal mewn llyfrgelloedd a marchnadoedd lleol, a gall ddarparu mynediad at ddigwyddiadau a grwpiau cymunedol lleol.

Mae'r gwasanaeth **Cymorth yn y Cartref** yn cynnig cymorth lefel isel i bobl hŷn sydd angen rhywfaint o help ychwanegol i'w galluogi i fyw eu bywydau fel y dymunant yn eu cartrefi eu hunain.

**Canlyniadau Perfformiad:**

**Y Gwasanaeth Cyfeillio**

**891**
o bobl wedi cael cymorth.

**100%**
o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n llai unig ac yn llai ynysig.

**70**
o grwpiau'n cael eu cynorthwyo.

## Canlyniadau Perfformiad:

### Y Gwasanaeth Cyfeillio



**100%**
o bobl wedi'u galluogi i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus.



**420**
nifer yr oriau y cafodd gofalwyr ryddhad uniongyrchol oddi wrth eu dyletswyddau gofalu.

### Cysylltwyr Cymunedol

**1,519**
o bobl wedi'u cynorthwyo.



Yn achos
**89%**
fe wnaethom helpu i ddarparu'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Llwyddodd
**84%**
i ddal gafael ar eu hannibyniaeth a'u sgiliau byw o ddydd i ddydd.

### Cymorth yn y Cartref

**448**
o Aelodau'n rhan o'r gwasanaeth.





Ymatebwyr cyntaf ar gyfer galwadau brys trwy gyfrwng Careline.

**93%**
o bobl yn teimlo bod modd iddynt fyw yn eu cartref eu hunain.



**17,507**
o ymyriadau cymorth.

## Dyfyniad:

> "Roeddwn i mewn sefyllfa wirioneddol anodd ac fe wnaeth un o'r Cysylltwyr fy helpu i gael gafael ar gynifer o bethau'n lleol – pethau na fyddwn i wedi llwyddo i ddod o hyd iddyn nhw fy hun."

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Powys – Gofal a Hwylusir gan Dechnoleg

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£100,000**

**Disgrifiad:**

Diben Gofal a Hwylusir gan Dechnoleg yw darparu technoleg a all gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Gall y dechnoleg hon beri bod galwad yn cael ei gwneud yn awtomatig i ofyn am gymorth a chynorthwyo gofalwyr di-dâl i gadw golwg ar eu hanwyliaid o bell. Mae'r gwasanaeth yn tawelu meddyliau unigolion a'u teuluoedd ac yn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, yn cynnwys pobl â dementia. Enghraifft o hyn yw system fonitro Canary. Cafodd hon ei defnyddio gan deulu i gadw golwg ar eu mam 90 oed o bell, heb iddynt orfod mynd i'r tŷ. Yn anffodus, bu farw eu mam 19 mis ar ôl i'r prosiect gael ei roi ar waith; ond mae'r teulu'n dawel eu meddwl eu bod wedi gwireddu dymuniad eu mam o beidio â symud i fyw i gartref gofal.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Derbyniodd **563** o bobl Ofal a Hwylusir gan Dechnoleg.

Cafodd **1,237** o eitemau technoleg eu rhagnodi.

Rhagwelir y bydd modd osgoi costau o **£358k.**

**Dyfyniad:**

> **"Rydym yn sylweddoli yn awr i ba raddau rydyn ni'n dibynnu ar [y dechnoleg]... pwy fyddai wedi meddwl?... Mae'n gwneud gwahaniaeth."**

**REFENIW**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru – Llwybr Gofal Canolradd Sir Gaerfyrddin

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£800,000**

**Disgrifiad:**

Mae buddsoddiad y Gronfa Gofal Integredig yn ystod 2018-2019 wedi ariannu Geriatregydd Ymgynghorol i weithredu cam cyntaf model ward rhithwir o fewn y Gwasanaeth Trosglwyddo Gofal a Chydgysylltu (TOCALS). Mae'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar Gartrefi Gofal mae llawer iawn o'u preswylwyr yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae cynllun peilot yng Nghartref Gofal Hafan y Coed yn Llanelli (Cartref Gofal Annibynnol) wedi bod ar waith ers mis Awst 2018, ac mae wedi arwain at ostyngiad sylweddol o ran nifer y preswylwyr sy'n mynychu'r ysbyty ac yn cael eu derbyn i'r ysbyty, ynghyd â chanlyniadau gwell i unigolion o ran gallu rhoi triniaeth iddynt yn eu cartref.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Llai o unigolion angen gofal ail-alluogi yn y cartref.

Gostyngiad o **30%** yn nifer yr unigolion yn y gymuned sy'n disgwyl cael eu hasesu am ofal a chymorth.

Gostyngiad o **89%** yn nifer yr adolygiadau gofal a chymorth.

Ar gyfartaledd, caiff **52%** o gleifion a asesir gan TOCALS wrth y 'drws ffrynt' eu rhyddhau o'r ysbyty yr un diwrnod ag y gwnaethant gyrraedd.

Mae llif cleifion mewn gofal eilaidd wedi gwella, sy'n golygu bod mwy o welyau ar gael.

Mae cyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 3.4 WTE (cyfwerth ag amser cyflawn) wedi cryfhau'r gwasanaeth. Mae nyrs gofrestredig ychwanegol yn ystod y dydd wedi arbed 700 o ddyddiau gwely ychwanegol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Canlyniadau Perfformiad:**

**£722,485** o arbedion mewn perthynas â darparu gwrthfiotigau IV yn unig.

Hyd yn hyn, mae'r cynllun peilot yn rhyddhau **£22,000** y mis o safbwynt arbedion dyddiau gwely.

Arbedwyd **3,085** o ddyddiau gwely y llynedd mewn perthynas â darparu gwrthfiotigau IV.

**Dyfyniad:**

"Roedd y merched yn hyfryd ac fe wnaethon nhw wirioneddol fy helpu. Doeddwn i ddim eisiau unrhyw help, oherwydd roeddwn i'n teimlo y byddai hynny'n dwyn fy annibyniaeth oddi arnaf, ond mae'r merched hyn wedi fy helpu i aros yn annibynnol."



REFENIW

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru – Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro (PIVOT)

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£160,000**
**(Rhan o Gymdeithas Gwasanaethau atal Gwirfoddol Sir Benfro)**

**Disgrifiad:**

Mae cynllun PIVOT yn gweithio ar y cyd â'r Tîm Cymorth Amlasiantaethol a chynlluniau cymunedol eraill, fel gofal a thrwsio a chlybiau cinio, i ddarparu cymorth "cofleidiol" ar gyfer pobl sydd eisiau parhau i fod yn annibynnol yn eu cymunedau neu ddychwelyd i'w cymunedau. Mae PIVOT yn ychwanegu gwerth at nifer o gynlluniau trwy lenwi bylchau mewn darpariaeth fwy ffurfiol, yn dibynnu ar anghenion pob cleient, e.e. darparu cludiant y tu allan i oriau i bobl sy'n dychwelyd i'w cymunedau, sicrhau bod ganddynt fwydydd sylfaenol yn y tŷ, yn ogystal â chyfleustodau sy'n gweithio'n iawn, sicrhau bod mân waith atgyweirio wedi'i wneud cyn iddynt ddychwelyd adref, cydgysylltu â theuluoedd, a chynnig gwasanaethau dilynol fel gwasanaeth cyfeillio a gwasanaethau eraill sy'n delio â theimladau ynysig, pan fo hynny'n briodol.

**Canlyniadau Perfformio:**

**761** o achosion wedi'u cyfeirio at y gwasanaeth.

**96** achos o ryddhau pobl â chymorth wrth ddrws ffrynt gwasanaethau acíwt.

**462** o dderbyniadau wedi'u hatal.

**4,716** o ddyddiau gwely wedi'u harbed.

**Dyfyniad:**

> "Mae PIVOT yn anhygoel. Oherwydd y cymorth, bu modd i Mam aros gartref a doedd Dad ddim yn poeni'n ormodol am beidio â bod yna i'w wraig."

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru – Tîm Adnoddau Cymunedol y Trydydd Sector

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£268,292

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect hwn wedi deillio o bartneriaeth gydweithredol rhwng partneriaid Trydydd Sector allweddol yng Ngheredigion sy'n cynnig cymorth cyfunol, amserol a phriodol i ymdrin â'r hyn sydd wrth wraidd materion mae pobl eiddil ac oedrannus yn eu hwynebu, trwy brofi cysyniad cyflawni amgen.

**Canlyniadau Perfformiad:**

53 o gleientiaid newydd.

623 o ymyriadau.

2,536 o oriau cymorth.

97% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn gallu gwneud mwy o'r pethau sy'n bwysig iddynt ar ôl cael y gwasanaeth.

100% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

**Dyfyniad:**

Diolch o galon am eich gofal a'ch cymorth ar ôl i mi ddod adref o'r ysbyty. Fe wnaethoch chi wahaniaeth enfawr ar adeg pan oeddwn i'n bryderus iawn ac yn sâl dros ben. Dw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi ymdopi heb eich cymorth. Gan fod fy sefyllfa ariannol wedi gwella erbyn hyn, rydw i'n teimlo'n fwy abl o lawer i reoli'r amgylchiadau newydd.

**REFENIW**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bae'r Gorllewin – Model Optimaidd

## Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£5,706,000

**Disgrifiad:**

Gwasanaeth cymunedol ar gyfer pobl dros 65 oed yw'r Model Optimaidd, er mwyn eu cynorthwyo yn eu catrefi pan fyddant yn sâl. Y nod yw eu cael adref o'r ysbyty cyn gynted ag y bo modd a rhoi cymorth iddynt yn eu cartref eu hunain ar ôl iddynt fod yn yr ysbyty, er mwyn eu helpu i aros yn annibynnol.
Mae sawl elfen yn perthyn i'r gwasanaeth. Yr elfen gyntaf yw'r pwynt mynediad cyffredin, sef un pwynt cyswllt ar gyfer cyfeirio pobl at ofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn siarad â'r bobl iawn yn y Tîm Clinigol Acíwt ac yn darparu asesiadau ac ymyriadau meddygol a nyrsio di-oed. Mae Ailalluogi yn golygu rhoi cymorth tymor byr i bobl. Caiff sgiliau eu cyflwyno er mwyn iddynt allu rheoli tasgau byw o ddydd i ddydd a pharhau i fyw'n annibynnol. Mae person cyswllt y trydydd sector/sector gwirfoddol yn cynnig cyngor a chymorth yn ymwneud â gwasanaethau cymunedol; mae mudiadau elusennol lleol hefyd yn cynorthwyo pobl i fynd adref ar ôl bod yn yr ysbyty.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Arbedwyd
**39,473**
o ddyddiau gwely.

Arbedwyd
**£5,328,855**
o ran costau dyddiau gwely.

**1778**
Cynorthwyodd gwahanol elfennau â 1778 achos o ryddhau pobl o'r ysbyty (yn cynnwys y Tîm Clinigol Acíwt a gwasanaethau Ailalluogi sy'n cynorthwyo unigolion o safbwynt eu rhyddhau o'r ysbyty ac yn eu cynorthwyo yn y gymuned er mwyn atal eu derbyn i'r ysbyty).

**Dyfyniad:**

"Mae'r staff wedi bod yn foesgar, yn wych. Mae pawb wedi bod mor glên ac anhygoel. Mae'n teimlo fel pe bawn i'n cael parti gyda 'nghyfeillion – dydyn nhw ddim yn cael digon o ddiolch ac fe fyddwn yn sicr yn argymell y gwasanaeth. Mae'r byd yn lle gwell o lawer gyda nhw ac fe wnaethon nhw gyflawni gwyrth i mi."

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bae'r Gorllewin – Prosiect Ysbyty Rhiant-ofalwyr Abertawe

## Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

£15,000

**Disgrifiad:**

Nod y prosiect oedd gwella canlyniadau a llesiant 200+ o riant-ofalwyr a'u teuluoedd trwy ddod o hyd i riant-ofalwyr cudd a chynnig iddynt gymorth 1-1 a chymorth mewn grŵp, gwybodaeth gyfeirio, cyngor ac arweiniad yn Hafan-y-Môr, Singleton a gwasanaethau pediatrig yn ysbyty Morriston. Rydym eisiau dod o hyd i fwy o riant-ofalwyr a chynnig cymorth gwell a rhagweithiol i riant-ofalwyr yn Abertawe. Maent yn darparu gwasanaethau cymorth amserol, o ansawdd, i deuluoedd plant a phobl ifanc 0-25 a chanddynt anableddau/ anghenion ychwanegol.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Cafodd mwy na
**200**
o riant-ofalwyr a'u teuluoedd gymorth gan y prosiect hwn.





Cyflwynwyd
**70+**
o sesiynau 1-1 i riant-ofalwyr.

Cafodd
**3**
o wirfoddolwyr eu recriwtio i gynorthwyo gyda'r prosiect.



**Dyfyniad:**

> "Mae bod yn rhiant yn waith anodd. Mae bod yn rhiant-ofalwr yn waith anodd dros ben, ac mae'n sobr fod popeth rydych chi'n ceisio cael help ato/ mynediad ato/cymorth ar ei gyfer yn troi'n frwydr arall eto, ac yn dihysbyddu mwy fyth ar eich egni prin! Ddylai pethau ddim bod mor galed â hynny!"

REFENIW



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bae'r Gorllewin – Comisiynu ar gyfer Anghenion Arbennig

## Pobl ag anableddau dysgu

**Dyraniad Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig :**

**£493,215**

**Disgrifiad:**

Mae'r rhaglen Comisiynu ar gyfer Anghenion Arbennig yn trawsnewid bywydau pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl sy'n derbyn gwasanaethau gofal. Mae'r rhaglen yn annog cynnydd, sy'n grymuso pobl i'w cynnal eu hunain a mynd yn llai dibynnol ar wasanaethau yn yr hirdymor. Caiff canlyniadau eu pennu, ac yna cânt eu hadolygu er mwyn sicrhau bod unigolion yn cyrraedd eu llawn botensial. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo annibyniaeth a chynnydd, gosod nodau personol a nodau llesiant, gwerth am arian, sicrhau bod sgwrs yn cael ei chynnal gydag unigolion yn trafod "Beth sy'n bwysig i mi", a chynlluniau gofal seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer pob unigolyn.

**Canlyniadau Perfformiad:**

Rhwng 2018-19 cwblhawyd **127** o gynlluniau gofal newydd seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer unigolion.

Datblygwyd nifer o astudiaethau achos yn dangos llwybrau cynnydd unigolion.

Arbedwyd **£1,965,038** rhwng 2018–19.

**Dyfyniad:**

"Mae gweithio'n effeithiol ar y cyd yn hollol angenrheidiol yn y busnes hwn, ac mae'r broses yn ffordd dda o hwyluso hyn. Mae'n ffordd strwythuredig a chefnogol o reoli cynnydd unigolion a'u helpu i gymryd camau i feithrin eu hyder a byw'n fwy annibynnol."

CYFALAF



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Caerdydd a'r Fro – Canolfan Dementia Cynnar

**Cyfraniad y Gronfa Gofal Integredig:**

## £472,704

**Disgrifiad:**

Roedd y prosiect yn cynnwys uwchraddio ward 18 oed yn Ysbyty'r Barri a'r gofod ysbyty dydd o'i amgylch er mwyn darparu amgylchedd mwy priodol symptomau seiciatrig i'r graddau na ellir eu rheoli gartref neu mewn cartrefi gofal. Ymhellach, roedd yn cynnwys creu canolfan addas i'r Tîm Dementia Cynnar amlddisgyblaethol wrth ymyl ward y cleifion mewnol. Trwy ailwampio'r uned ddydd, y ward a'r ardd, crëwyd lle newydd a phriodol i wella profiad cleifion a hwyluso gweithgareddau therapiwtig ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr mewn amgylchedd addas a diogel. Roedd cael mwy o le ar gyfer cynorthwyo cleifion egnïol iawn yn un o ofynion allweddol y prosiect hwn.

**Canlyniadau:**

Amgylchedd diogel, addas i'r oedran ar gyfer cleifion mewnol, teuluoedd a grwpiau cymunedol, a lle priodol i weithio gyda'r trydydd sector ac Awdurdodau Lleol i wella gwasanaethau er mwyn cwrdd ag anghenion llwyth achosion y Tîm Dementia Cynnar (**142** o gleifion ar gyfartaledd ar unrhyw adeg ar gyfer poblogaeth Caerdydd a'r Fro).

Arweiniodd at lwybr newydd ar gyfer cleifion, sy'n eu galluogi i gael gafael ar asesiadau acíwt a seibiant ar yr uned yn hytrach na gorfod mynd i wardiau henoed anghyfarwydd yn Llandochau (oni bai bod asesiad risg yn nodi fel arall). Bydd parhad gofal a gofal seibiant priodol yn y Ganolfan Dementia Cynnar yn lleihau straen i gleifion a gofalwyr ac yn lleihau'r angen am dderbyniadau cleifion mewnol brys.

Fe fydd darparu mwy o le i gleifion mewnol mwy egnïol yn gwella ansawdd eu bywydau, yn ogystal â'u llesiant a'u hiechyd corfforol a meddyliol.

**Dyfyniad:**

> "Mae'n dda gweld pobl â dementia'n cael rhywle braf i aros er mai yn yr ysbyty y maen nhw, gwaetha'r modd."



CYFALAF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwm Taf – Llety Pontio i Bobl Ifanc ag Anghenion Gofal Cymhleth

**Cyfraniad y Gronfa Gofal Integredig:**

## £320,000

**Disgrifiad:**

Cafodd y prosiect ei ddatblygu er mwyn ymdrin â'r angen am ymyrraeth argyfwng a lleoliadau preswyl uniongyrchol, sy'n cynnig meddiannaeth unigol ac asesiad tymor byr, er mwyn sicrhau bod asesu a chynllunio digonol ar waith. Bydd hyn yn galluogi pobl ifanc i gamu i lawr at ddarpariaeth llety amgen addas. Mae'r prosiect yn cynnig model o lety pontio ar gyfer pobl ifanc y gellir cwrdd â'u hanghenion yn y ffordd orau trwy gyfrwng model gofal penodol.
Er bod yr adolygiad o ofal preswyl a gynhaliwyd gan Cordis Bright yn 2018 wedi nodi nad oedd gan unrhyw fodel gofal dystiolaeth ddigonol mewn perthynas â chymorth ar raddfa fawr, tynnwyd sylw at y ffaith y dylid rhoi nodweddion allweddol ar waith. Mae'r prosiect hwn wedi rhoi dull seiliedig ar drawma ar waith er mwyn cynnig ymyrraeth gadarnhaol a sefydlogrwydd i fywydau plant a phobl ifanc.

**Y Camau Nesaf:**

Mae'r cais i gofrestru'r cartref gydag Arolygiaeth Gofal Cymru wedi'i gyflwyno ac mae wrthi'n cael ei brosesu. Gwnaed hyn er mwyn bodloni gofynion sylfaenol Safonau Gofynnol Cenedlaethol y Rheoliad Cartrefi Gofal a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'r dasg o recriwtio staff ar gyfer y cartref wedi'i rhoi ar waith, a'r nod yw bod yn gwbl weithredol o fewn y 3 mis nesaf.

Mae'r prosiect yn bodloni gofynion Strategaeth Ranbarthol Cwm Taf o safbwynt cynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd. Gwneir hyn trwy gynorthwyo mwy o blant a phobl ifanc i fyw gyda'u teuluoedd yn ddiogel a gwella cyfleoedd llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

CYFALAF



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwent – Llety a Seibiant i Blant, Tŷ Oakland

**Cyfraniad y Gronfa Gofal Integredig:**

## £505,000

**Disgrifiad:**

Oakland yw'r unig ddarparwr seibiant preswyl i blant anabl yng Ngwent. Cafodd ei agor yn swyddogol ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r prosiect yn cynnwys cartref plant â phum gwely lle gall plant a chanddynt amrywiaeth o anableddau aros dros nos am gyfnodau byr mewn amgylchedd diogel, ysgogol a llawn anogaeth. Mae'n darparu gwasanaeth dydd hefyd. Mae'r gwasanaeth yn elwa ar ddull integredig. Yn aml, mae staff o'r tîm nyrsio cymunedol plant yn gweithio ochr yn ochr â staff Oakland i ddarparu seibiant i blant sydd â'r anghenion iechyd mwyaf cymhleth. Mae hyn yn galluogi plant ag anghenion iechyd sylweddol i fynd i amgylchedd cartrefol, cymdeithasol am seibiannau rheolaidd. Gwasanaeth ataliol yw hanfod y gwasanaeth hwn. Mae gan y plant sy'n defnyddio Oakland anghenion cymhleth iawn ac mae pob un ohonynt yn byw yn eu cartref teuluol, gyda'u rhieni neu eu gwarcheidwaid yn brif ofalwyr iddynt. Diben y prosiect ailwampio hwn yw galluogi cynifer o blant a theuluoedd â phosibl i elwa ar y gwasanaeth a chynnig amgylchedd a all arwain at fwynhad ac annibyniaeth i'r plant sy'n ei ddefnyddio.

**Dangosyddion Perfformiad:**

Bydd modd cyflwyno tystiolaeth ynghylch y canlyniadau ar sail y cynnydd yn y capasiti; mwy o welyau'n cael eu defnyddio bob mis.

Bydd yr effaith ar blant a'u gofalwyr yn cael ei fesur trwy adolygu eu cynlluniau gofal a chymorth.

Bydd holiaduron sicrhau ansawdd yn asesu a yw gofalwyr yn cydnabod na fyddai modd iddynt barhau â'u dyletswyddau gofalu heb gymorth y gwasanaeth hwn.

**Dyfyniad:**

**"Mae adborth y teuluoedd ar ôl i ni ailagor wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn anhygoel, ond weithiau maen nhw angen seibiant byr oddi wrth eu cyfrifoldebau gofalu. Mae'n bwysig i'r plant gael profiad pleserus pan fyddan nhw'n aros yn Nhŷ Oakland, a bydd y gwelliannau yma'n helpu i wneud y profiadau hynny'n fwy arbennig fyth."**



CYFALAF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gogledd Cymru – Hwb Cyfle

## Cyfraniad y Gronfa Gofal Integredig:

£845,538

## Disgrifiad:

Adeiladu canolfan gymunedol a Chanolfan Ddydd bwrpasol i Oedolion ar gyfer pobl a chanddynt Anableddau Dysgu dwys a lluosog. Mae Hwb Cyfle yn disodli canolfan flaenorol nad oedd yn addas i'r diben mwyach. Ceir lle a chyfleusterau gwych ar gyfer darparu cymorth o'r radd flaenaf i gwrdd ag anghenion a chanlyniadau diffiniedig y rhai sy'n defnyddio'r ganolfan i ddatblygu sgiliau newydd, meithrin hyder ac annibyniaeth, a chreu a chynnal perthnasau personol cadarnhaol. Mae'r datblygiad wedi cynnig lle i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid – yn cynnwys y Bwrdd Iechyd – ddarparu cyfleoedd a gwasanaeth mwy integredig at ddefnydd y gymuned ehangach y tu allan i oriau gwasanaeth.

## Canlyniadau:

Ers i'r gwaith adeiladu ddod i ben ym mis Gorffennaf 2019, mae gwasanaethau'n cael eu cynnal ar y safle newydd a gwell hwn trwy gyfrwng partneriaeth gadarnhaol gyda darparwr y gwasanaethau.

Mae cynllun y gwasanaethau a'r adeilad newydd wedi esgor ar newid mewn diwylliant a disgwyliadau, mwy o ffocws ar annibyniaeth, a ffocws ar gyflawni'r hyn sy'n bwysig i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

Mae'r adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaethau wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Cyfleoedd datblygu i ddod o hyd i leoliadau gwaith â chymorth yn y Clwb Rygbi lleol.

Mae'r datblygiad wedi cael ymateb cadarnhaol gan y gymuned ehangach.

Mae nifer y bobl sy'n dewis defnyddio'r gwasanaethau (o gymharu â'r rhai a gynigiwyd yn yr adeilad gwreiddiol) yn cynyddu.

Bu'r broses gynllunio ac adeiladu'n hollol gynhwysol, a buom yn ymgysylltu'n barhaus gyda dinasyddion, grwpiau teuluol, staff a rhanddeiliaid ehangach yn ystod pob cam.

## Dyfyniadau:

Meddai'r staff: **Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r bobl rydyn ni'n eu helpu. Mae'n ymwneud â gwerth – gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod eu bod yn werthfawr, gydag adeilad newydd i fynd iddo. Mae'n braf gweld pawb wedi setlo ac yn hapus.** Yn ôl rhiant un o'r rhai sy'n defnyddio'r ganolfan: **Rydw i wedi ymweld â'r adeilad sawl gwaith yn ddiweddar, ac mae'n gwireddu ein dymuniadau i gyd ar gyfer y defnyddwyr.**

CYFALAF



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Powys – Ailwampio yn Llanwrtyd

| | |
|---|---|
| **Cyfraniad y Gronfa Gofal Integredig:** | **£12,000** |
| **Disgrifiad:** | Defnyddiwyd y cyllid i ailwampio'r gegin yng Nghanolfan Ddydd/Canolfan Gymunedol Llanwrtyd. Menter gymdeithasol yw Trafnidiaeth Gymunedol Llanwrtyd. Mae ganddi fwy nag 16 mlynedd o brofiad yn cynorthwyo'r gymuned leol trwy gyfrwng ei chynllun trafnidiaeth gymunedol. Mae'r sefydliad yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau trafnidiaeth, gan gysylltu â llwybrau bws a thrên presennol pan fo modd. Ni all 1 o bob 4 person yn y dalgylch yrru, neu nid oes ganddynt fynediad at gar. Mae'r fenter yn ymdrechu i wella cynhwysiant cymdeithasol a gwella ansawdd bywydau ei chwsmeriaid. Caiff y ganolfan ei defnyddio'n rheolaidd bob dydd Mawrth a dydd Iau fel clwb coffi i bobl o bob oedran, er mwyn annog rhyngweithio a helpu pobl sy'n teimlo'n ynysig – rhywbeth sydd i'w weld yn aml mewn cymunedau gwledig. |
| **Canlyniadau:** | Cynnydd yn nifer y bobl o fewn y gymuned sy'n defnyddio'r ganolfan gymunedol trwy sicrhau bod cymorth / gwasanaethau ehangach ar gael yn y ganolfan.<br><br>Lleihau teimladau ynysig ymhlith grwpiau agored i niwed yn y gymuned; model cyflawni gwasanaeth cynaliadwy a hunangynhaliol. |
| **Dyfyniadau:** | Staff said: **Mae'r hwb, y ganolfan gymunedol a'r gegin sydd newydd ei hailwampio, yn adnodd gwych. Pan ydw i allan yn cyfarfod pobl sy'n ynysig yn gymdeithasol, mae'n rhoi rhywbeth i mi gysylltu ag ef. Mae'n rhywle y gallan nhw ddod iddo i gyfarfod â phobl eraill – gyda mantais ychwanegol y drafnidiaeth, mae'n galluogi pawb yn yr ardal (nid y bobl yn y dref yn unig) i gael mynediad at adnodd gwych.**<br><br>Aelod: **Mae'n wych, heb sôn am y gegin newydd – mae'n rhoi bywyd newydd i'r rhan hon o'r dref. Mae pobl yn dod yma o Feulah hefyd. Mae gennym fore coffi ddwywaith yr wythnos, mae'n wych. Roeddwn i'n siarad â menyw 98 oed sy'n dod yma – fyddai hi ddim yn gallu mynd allan fel arall. Ac mae'n hwb i bobl ifanc ag anableddau dysgu. Gall pobl ddod draw am goffi ac i eistedd, ac fe fyddwch chi'n gwybod eich bod wedi gweld rhywun. Mae'n torri'r cylch o deimlo'n ynysig.** |

CYFALAF



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru – Prosiect Sgïo Anabledd

**Cyfraniad y Gronfa Gofal Integredig:**

## £31,787

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect sgïo a beicio anabledd wedi'i leoli ym Mharc Gwledig Pen-bre ac mae'n galluogi unigolion ag anableddau corfforol, anafiadau i'r ymennydd ac anableddau dysgu i gymryd rhan yn y gamp trwy gael mynediad at offer sgïo arbenigol a beiciau wedi'u haddasu. Mae'r ganolfan Sgïo a Beicio ym Mhen-bre wedi cael ei hailadeiladu a'i hailwampio, a cheir ystafell newid arbennig at ddefnydd pobl anabl. Mae'r ystafell newid yn cynnwys gwely cawod a newid trydan y gellir addasu ei uchder a sling nenfwd ffrâm H. Ymhellach, prynwyd 'cadeiriau sgïo' newydd gyda'r grant, mewn dau faint gwahanol. Llwyddodd y prosiect Beicio i Bawb i elwa ar feiciau ac offer ychwanegol. Bydd ystafell newid y ganolfan Sgïo a Beicio o fudd i holl ddefnyddwyr ac ymwelwyr Parc Gwledig Pen-bre.

**Canlyniadau Allweddol:**

- Galluogi unigolion i gymryd rhan yn y prosiectau Sgïo a Beicio – unigolion a fyddai wedi'u hallgáu rhag gwneud hynny fel arall.
- Gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywydau'r rhai sy'n cymryd rhan.

**Dyfyniad:**

"Mae hi mor braf gweld toiled i bobl anabl sydd â sling a gwely. Mae cawod a gwely cawod yn fonws."

"Llongyfarchiadau i bawb yn y ganolfan sgïo. Bydd yn gwneud cymaint o wahaniaeth i deuluoedd sy'n dod am dro i'r rhan honno o'r parc."

CYFALAF



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bae'r Gorllewin – Llety Byw â Chymorth ar gyfer Prosiect Anghenion Cymhleth

| | |
|---|---|
| **Cyfraniad y Gronfa Gofal Integredig:** | **£272,500** |
| **Disgrifiad:** | Datblygu dau gynllun byw â chymorth pwrpasol ar gyfer oedolion ag anghenion cymhleth sy'n byw ar hyn o bryd mewn cartrefi gofal. Mae'r cynlluniau hyn ar gyfer oedolion sydd â'r potensial i symud yn eu blaen at gynlluniau byw â chymorth ac sydd wedi dweud yr hoffent symud i'w cartref eu hunain. |
| **Canlyniadau Perfformiad:** | Paratoi briff penodol ar gyfer y prosiect – Tachwedd 2018.<br>Dod o hyd i eiddo addas – Rhagfyr 2018.<br>Trafod prynu'r eiddo (RSL) – Ionawr 2019.<br>Cwblhau'r gwaith o brynu'r eiddo – Mawrth 2019.<br>Proses dendro ar waith ar gyfer dod o hyd i ddarparwr a all ddarparu'r cymorth.<br>Cadarnhau y bydd dau berson yn symud i mewn a bod trydydd person wrthi'n cael ei asesu.<br>Rhoi prosesau cynllunio pontio ar waith i gynorthwyo pobl i symud. |